

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: Dydd Mercher 27 Ebrill 2022

Amser: 10.00 y.b.

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Mary Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorydd: Philip Capper, Wyn Ellis-Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn.

R H A G L E N

- | | Rhifau Tudalennau |
|---|-------------------|
| 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd | |
| 2. Diweddariad Corfforaethol Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr. | |
| 3. Hawl i'r Cyhoedd Holi Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc. Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod. | |
| 4. Datgan Diddordeb Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes. | |
| 5. Cofnodion Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 9fed o Chwefror 2022 fel rhai cywir. (Copïau yma) | 4 - 10 |
| 6. Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion | |
| 7. Taflen Gweithredu Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 11 - 14 |
| 8. Cynllun Archwilio 2022 Derbyn adroddiad gan Rachel Freitag ac Euros Lake, Archwilio Cymru. (Copi yma) | 15 - 28 |
| 9. Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol. (Copi yma) | 29 - 54 |
| 10. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | 55 - 58 |
| 11. Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. (Copi yma) | 59 - 64 |
| 12. Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb: Ein Hymagwedd tuag at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant (Diwygiwyd ar Gyfer 2021) Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau. (Copi yma) | 65 - 94 |
| 13. Adroddiadau Gweithgor yr Aelodau Cyflwyno adroddiadau'r Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19eg Ionawr a'r 2il o Fawrth 2022. (Copïau yma) | 95 - 100 |
| 14. Calendr o Gyfarfodydd 2022/23 Cyflwyno Amserlen o Gyfarfodydd ar gyfer y cyfnod 2022/23. (Copi yma) | 101 |

15. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

16. **Cyflwyno'r cofnodion a ganlyn er gwybodaeth:-**

Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 24ain o Dachwedd, 2021. (Copi yma)

102 - 107

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 9 CHWEFROR 2022**

Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Conwy) (Cadeirydd)

PRESENNOL :

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Ms Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mr. Ms. Sian Owen, Ms Anwen Gaffey;

Yn bresennol

Mr. Nick Selwyn, Archwilio Cymru.

Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:

- Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- (1) Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddau gyfarfod o Gydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 14 a 28 Ionawr 2022. Etholwyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) i'r Gadair yn y cyfarfod cyntaf a chytunwyd ar y gyllideb yn yr ail gyfarfod. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai'r ardoll ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer 2022/23 fyddai £3,140.
- (2) Nododd y Cadeirydd fod dwy flynedd bellach ers i'r Awdurdod gyfarfod yn bersonol ym Mhlas Tan y Bwlch ac fe achubodd y cyfle i ddiolch i holl staff yr Awdurdod am addasu mor dda i arferion gwaith newydd o dan amgylchiadau anodd.
- (3) Yn dilyn dau gyfarfod diweddar o'r Gweithdy Twristiaeth Gynaliadwy, cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r trefnwyr, ac i bawb a gymerodd ran am eu cyfraniad.

2. Diweddariad Corfforaethol

Derbyniwyd – Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar y canlynol:-

- cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod cyfweiliadau wedi'u cynnal ar gyfer swyddi gwag Aelodau Llywodraeth Cymru ar yr Awdurdod a'i fod yn aros am benderfyniad y Gweinidog ar y penodiadau. Bydd y swydd wag bresennol yn cael ei llenwi ar unwaith, a bydd y penodiad arall yn dechrau ddiwedd Gorffennaf 2022.

- dywedodd y Prif Weithredwr fod trefniadau ar waith i staff sy'n dod i gysylltiad â'r gymuned ffermio dderbyn hyfforddiant iechyd meddwl gan elusen Tir Dewi, a sefydlwyd i gefnogi ffermwyr a'u teuluoedd.
- cyfeiriodd y Prif Weithredwr at nifer o ohebiaeth a dderbyniwyd gan aelodau a swyddogion ynghylch gwaith llwybrau troed yng Ngogledd y Parc Cenedlaethol, a oedd wedi rhannu barn. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Tîm Rheoli yn y dyfodol yn cael gwybod am yr holl waith llwybr troed arfaethedig cyn cychwyn ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law i ystyried materion megis sut i flaenoriaethu'r gwaith, y safonau angenrheidiol, gofynion ymgynghori ayyb.
- dywedodd y Prif Weithredwr fod dros 120 o gynrychiolwyr o gymunedau lleol wedi cofrestru i gymryd rhan yn y Weminar Traffig a Pharcio ar 16 Chwefror 2022.
- roedd cyflwyniad ar-lein wedi'i drefnu ar 18 Chwefror 2022 i Aelodau a swyddogion dderbyn canlyniadau Arolwg Preswylwyr ac Ymwelwyr 2021.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Datganodd Ms Anwen Gaffey a Ms Catrin Williams (cyfieithydd) fudd yn eitem 13 ar y Rhaglen ond arhosodd y ddwy yn y cyfarfod. Datganodd Ms. Sian Owen a Ms Gwen Aeron (swyddog cyfathrebu) fudd yn Eitem 13 ar y Rhaglen ac aethant allan o'r cyfarfod tra'r oedd y mater yn cael ei drafod.

5. **Cofnodion**

Cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24^{ain} Tachwedd ac 8 Rhagfyr Derbyniwyd 2021 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnodion cywir.

6. **Materion Er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. **Rhybudd o Gynnig**

Cyflwynwyd – Hysbysiad o Gynnig gan Mr. Owain Wyn, yn datgan bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried y nod llesiant o "sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu" tra'n mabwysiadu'r pum ffordd o weithio i wireddu'r uchelgais hwn.

Cyflwynodd Mr. Wyn y cynnig ac eglurodd ei fod yn teimlo ei bod yn amserlo ystyried y materion hyn yn awr gan fod aelodaeth yr Awdurdod ar fin newid, a bod canlyniadau'r cyfrifiad ar fin digwydd ac y byddent yn darparu sylfaen dystiolaeth dda.

Wrth nodi'r cyd-destun fel y'i gosodwyd:-

Cynigiwyd bod Aelodau'n galw ar yr Awdurdod a'i bartneriaid i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau drwy:-

1. Ddatblygu gweledigaeth glir o sut y gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri chwarae ei ran yn yr adfywiad iaith cenedlaethol drwy adeiladu ar well dealltwriaeth o'r sefyllfa leol i yrru ymyraethau polisi a chreu amodau fydd yn cynyddu nifer y bobl sy'n medru'r Gymraeg a hybu'r defnydd a wneir ohoni bob dydd yn Eryri;
2. Ar yr adeg briodol sicrhau bod fersiynau nesaf o ddogfennau allweddol yr Awdurdod (y Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Eryri, ein Datganiad Llesiant a Strategaeth Hybu'r Gymraeg) yn cyd-fynd yn briodol â'r weledigaeth honno ac yn ei chefnogi."

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y cynnig a gwneud y sylwadau a ganlyn:-

- teimlai'r Prif Weithredwr fod yr ateb eisoes wedi'i nodi yn natganiad agoriadol yr Aelod. Dywedodd fod ffrydiau gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn eisoes yn cwmpasu hyn, er nad oedd hyn yn wir yn BGC Conwy a Sir Ddinbych.
- croesawodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y cynnig a chytunodd fod angen mwy o waith i gefnogi a gwarchod yr iaith Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, sy'n dechrau eleni, a bydd is-grwpiau o Aelodau a swyddogion yn cael eu sefydlu bryd hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir hefyd fod y mater yn uchel ar agenda Grŵp Cynefin ac yn amlygu pwysigrwydd dod â phartneriaid i mewn i'r drafodaeth.
- Croesawodd yr Aelodau'r cynnig a chefnogwyd ei gynnwys yn llawn.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr Awdurdod wedi cyflwyno ymateb i holl ymgynghoriadau diweddar Llywodraeth Cymru, - cyflwynwyd crynodebau ohonynt i'r Aelodau mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.
- Cytunodd yr Aelodau fod croeso i weledigaeth y Senedd ar gyfer y Gymraeg a bod y cynnig yn hynod o amserol. Bellach mae angen i'r Awdurdod weithio gyda'i bartneriaid a'i gymunedau i benderfynu sut i wireddu'r cynnig hwn.
- Cytunodd yr Aelodau a'r swyddogion y dylid ystyried y cynnig yn y lle cyntaf mewn cyfarfod o Weithgor yr Aelodau cyn sefydlu is-grwpiau pellach yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD croesawu'r cynnig a disgwyl am adroddiad pellach i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau ym mis Mawrth neu Ebrill 2022.

8. Cofnod Gweithredu

Cyflwynwyd – Cofnod o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 10.04.19

Eitem Gweithredu 12 – Maniffesto Ieuencid Europarc

Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 08.12.21

Eitem Gweithredu 12 – Gwydnwch yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff

Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Cofnod Gweithredu a dileu'r camau gweithredu fel yr amlinellwyd.

9. Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021

Cyflwynwyd – Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2021.

Adroddwyd – Cyflwynodd Mr. Nick Selwyn, Archwilio Cymru, yr adroddiad a rhoddodd grynodedd i'r Aelodau o'r materion allweddol.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd, cytunodd Mr. Nick Selwyn y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys datganiad cryno ar y gwahaniaeth rhwng cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a chronfeydd defnyddiadwy.

- cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod balansau cyffredinol rhwng 3% a 5%, sy'n amrywio yn seiliedig ar y risgiau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu.
- Dywedodd Mr. Nick Selwyn fod Archwilio Cymru wedi cyhoeddi eu 'Hofferyn Data' yn ddiweddar sy'n cymharu data ariannol ar gyfer pob Cyngor, Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Roedd yn hapus i ddarparu dolen i'w gydweithwyr i'w hanfon ymlaen at Aelodau a allai ganfod ei fod yn ddefnyddiol.

PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, er gwybodaeth.

10. **Cyllideb yr Awdurdod ac Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn gofyn am gymeradwyaeth i gyllidebau refeniw a chyfalaf 2022/23 ac i godi ardollau ar awdurdodau cyfansoddol ar sail ffigwr dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a hysbysodd yr Aelodau o'r newidiadau a wnaed ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar y 8 Rhagfyr 2021, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thrafodwyd y canlynol:-

- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y cynnydd cyflog 1.75% o Ebrill 2021 wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2021/22 a'i fod yn parhau heb newid o'r hyn a gyflwynwyd i'r Aelodau ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r cynnydd 4% yng nghyllideb 2022/23 yn amcangyfrif o gytundeb tâl Ebrill 2022, ac yng nghyd-destun y cyfraddau chwyddiant diweddara, mae'r ffigwr hwnnw wedi'i gynyddu ers ystyriwyd cyllideb 2022/23 ym mis Rhagfyr.
- gofynnodd Aelod a oedd y cynnydd o 10% yn y gyllideb refeniw graidd wedi galluogi'r Awdurdod i adennill rhai o'i golledion. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yr Awdurdod wedi adennill ei golledion, ond roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad oedd yr Awdurdod wedi cael codiad chwyddiant ac y byddai bid am hyn yn cael ei wneud, gyda thrafodaethau pellach yn debygol ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD

1. **nodu cynnwys yr adroddiad.**
2. **cymeradwyo'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau.**
3. **awdurdodi codi ardollau ar y ddau gyngor cyfansoddol i gyfanswm o £1,373,262 yn unol â pharagraff 6.3 o adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.**

11. **Strategaeth Gyfalaf 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r argymhellion yn ymwneud â'r Cod Darbodus.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a gofynnodd i'r Aelodau nodi cywiriad ym mhara. 3.2 y fersiwn Gymraeg, a ddylai gyfeirio at flwyddyn ariannol 2022/23. Diolchodd y Prif Swyddog Cyllid i'r Pennaeth Cyllid am baratoi'r adroddiadau ariannol blynyddol o ansawdd dda, am y tro cyntaf ers cael ei phenodi. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Pennaeth Cyllid ar ran yr Aelodau.

PENDERFYNWYD

1. **nodu nad oedd bwriad i fenthycu arian at ddibenion cyfalaf, fodd bynnag, argymhellwyd y cyfyngiadau isod ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn y byddai argyfwng neu angen gwariant ar fyr rybudd.**

2. cymeradwyo'r Terfyn Benthycu Awdurdodedig presennol o £500,000 ar gyfer 2022/23, a Ffin Weithredol o £100,000.
3. na ddylid gosod terfyn ar y gyfran o log sy'n daladwy ar gyfradd newidiol.
4. mabwysiadu'r Strategaeth Benthycu Cyfalaf ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellir ym mharagraff. 3.2 o'r adroddiad a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau dan baragraffau 2.2, 3.3 a phara. 7.1 o'r adroddiad).
5. mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellwyd ym mharagraffau. 3.5 i 3.14 o'r adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.

12. Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2022/23 – 2025/26

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a baratowyd dros y 4-5 mlynedd diwethaf fel dogfen waith hawdd ei deall ac amlinellodd y prif bwyntiau i'r Aelodau.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- cydnabu'r Prif Swyddog Cyllid yr anawsterau a wynebai'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid wrth baratoi'r CATC a gwneud rhagamcanion yng ngoleuni'r ansicrwydd presennol.
- gofynnodd Aelod a oedd amserlen wedi ei gosod ar gyfer datrys dyfodol Plas Tan y Bwlch a nododd ei bryderon nad oedd rhedeg y Ganolfan fel busnes gwely a brechwast yn un o amcanion y Parc Cenedlaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cynllun Busnes wedi'i gytuno eto ac unwaith y byddai'r ffigurau ar gael y byddai cyfarfodydd pellach i drafod sefyllfa'r Ganolfan.
- mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Hillside, Aberdyfi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Geldards wedi darparu amcangyfrif o'r gost, ond nid oedd mewn sefyllfa i adrodd ar y mater ar hyn o bryd. Sicrhaodd yr Aelodau y byddai'r Awdurdod yn gallu cwrdd â'r costau heb effeithio ar wasanaethau eraill.
- mewn ymateb i awgrym y dylid cyfeirio at gynllunio ariannol tymor canolig yng nghofrestr Risg yr Awdurdod, teimlai'r Prif Swyddog Cyllid y byddai'n anodd crynhoi'r wybodaeth i'w chynnwys yn y gofrestr. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid diwygio geiriad y risg gyntaf a dywedodd y byddai'r Awdurdod yn y dyfodol yn cael gwybod am ei gyllideb sylfaenol ar gyfer tymor y Llywodraeth.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel dogfen waith.

13. Cydnerthedd yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau ystyried ymatebion i'r Ymgynghoriad Staff ac Undebau Llafur ar:

i. addasiadau i fandiau cyflog

ii. cydnabod dwyieithrwydd

iii. diwrnod o wyliau ychwanegol ar Ddydd Gwyl Dewi, ac

i'r Aelodau ystyried yn ffurfiol a chytuno ar newidiadau i delerau ac amodau staff i'w gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r atodiadau a rhoddodd gefndir i'r adroddiad i'r Aelodau.

- Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-
- gofynnodd Aelod a ddylai'r Awdurdod geisio adolygiad annibynnol o lefelau cyflog yr Awdurdod rywbryd yn y dyfodol? Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Aelodau wedi cytuno i'r adolygiad gael ei gynnal gan sefydliad sector cyhoeddus annibynnol a oedd yn deall y broses gyflogau. Yn ogystal, dywedodd y Prif Weithredwr mai'r nod i ddechrau oedd cynorthwyo'r Awdurdod i benodi i swyddi proffesiynol, ond ei bod bellach yn anodd recriwtio ar bob lefel, a bydd angen ailasesu'r sefyllfa yn y ddwy flynedd nesaf.
 - o ran cefnogi staff sy'n dysgu'r Gymraeg, awgrymodd Aelod y dylid cael system yn ei lle i gydnabod llwyddiant, megis gwobr neu nod barcud ac ati.
 - cyfeiriodd y Prif Weithredwr at bara. 6.1 o'r adroddiad a nododd yr angen i adolygu effeithiolrwydd y polisi ar ddiwedd 5 mlynedd.
 - argymhellodd Aelod y dylai'r Prif Weithredwr gysylltu â'r cyfryngau i roi gwybod am benderfyniad yr Awdurdod i fabwysiadu diwrnod o wyliau dewisol ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi o 1 Mawrth 2022 ymlaen.
 - mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr fod adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn amlinellu Polisi Tâl yr Awdurdod sy'n cynnwys gwybodaeth am y cyflog byw cenedlaethol a materion cydraddoldeb rhyw. Bydd Aelodau, felly, yn gallu trafod y mater hwn ymhellach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn y dyfodol.
 - gan gyfeirio at bara. 6.2, cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd gynnull cyfarfod o Aelodau enwebedig i asesu capasiti/rôl y Tîm Rheoli.

PENDERFYNWYD

1. **nodi cynnwys yr adroddiad a'r ymateb i'r ymgynghoriad.**
2. **cymeradwyo addasiad ym mandiau cyflog yr Awdurdod gan ddau bwynt cyflog (i fyny) ar y golofn gyflog fel y nodir ym mharagraff 6.1.**
3. **cymeradwyo diwrnod o wyliau dewisol ychwanegol ar Ddydd Gŵyl Dewi o 1 Mawrth 2022 ymlaen – y Prif Weithredwr i gyhoeddi datganiad i'r wasg yn hysbysu'r cyfryngau.**
4. **cymeradwyo cadw'r pwynt cyflog olaf mewn unrhyw fand cyflog yn amodol ar gyrraedd safon y cytunwyd arni yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y nodir ym mharagraff 6.1.**
5. **Cadeirydd yr Awdurdod i alw cyfarfod o'r Aelodau i ystyried capasiti / rôl y Tîm Rheoli. Enwebwyd yr Aelodau a ganlyn:-
Cynghorwyr Annwen Hughes, Alwyn Gruffydd, Elwyn Edwards;
Mr. Owain Wyn, Mr. Tim Jones a Ms Sarah Hattle.**

14. **Adroddiad Gweithgor**

Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021.

Yn codi wedi hynny,

Eitem 5 – Tirweddau Cynaliadwy Lleuedd Cynaliadwy (TCLIC) 2022/23

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn dal i aros am gadarnhad oherwydd bod y setliad grant yn parhau heb ei gadarnhau a bod disgwyl y cyhoeddiad yn ail wythnos Mawrth 2022.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

15. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**

Nid oedd yr Aelodau wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd allanol fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 25.09.2019

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|-----------------------------|---|--|--------------------------------|---|----------------------------|
| 8. Diweddariad o'r gyllideb | <ul style="list-style-type: none"> - adroddiad ar y pwysau cyllidebol a wynebigr gan yr Adran Eiddo i'w gyflwyno i Weithgor y dyfodol. - adroddiad gan Grŵp Prosiect Yr Ysgwrn i'w gyflwyno i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd. - rhoi copi o ddyfarniad Aberdyfi i'r Aelodau unwaith y bydd ar gael. | <p>Cyflwyno'r adroddiadau.</p> <p>I e-bostio Aelodau gyda'r dyfarniad.</p> | <p>EJ</p> <p>NJ</p> <p>GIJ</p> | <p>Diweddariad - Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau ar 4 Mawrth 2020 ac ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu pwysau cyllidebol ac argymhellion i ail-fuddsoddi incwm o safleoedd cynhyrchu incwm mewn cyllidebau cynnal a chadw yn y dyfodol o 2021/22 ymlaen. Adroddiad dilynol i'w baratoi ar gyfer pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref. Nodwyd bod Covid 19 yn risg bosibl ac mae wedi arwain at ohirio'r adroddiad oherwydd pwysau ariannol ehangach yn deillio o'r pandemig.</p> <p>Bu i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod ar 15fed Ionawr 2021. Bydd adroddiad diweddar yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn Ebrill 2022 ac mae penodiad wedi'i wneud i'r swydd Swyddog Eiddo sydd newydd ei chreu.</p> <p>Diweddariad - ar ddiwedd tymor 2021 bydd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Yr Ysgwrn cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ddiwedd 2021 / dechrau 2022</p> <p>Rhoddwyd copi o'r dyfarniad i'r Aelodau ar 28.11.19.</p> <p style="text-align: right;">CWBLHAWYD</p> | NA |



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.12.2020

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---------------------|---|--|------------------|---|----------------------------|
| 7 Taflen Gweithredu | Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19 Eitem Weithredu 12 - Maniffesto Ieuenctid Europarc | Symud ymlaen gyda'r weithred yma fel mater o frys. | AD | <p>DIWEDDARIAD: Penodiad wedi ei wneud a bydd y swyddog yn ei swydd yn fuan.</p> <p>DIWEDDARIAD: Dechreuodd y swyddog yn ei swydd ar 4ydd Ebrill 2022. Ers hyn mae'r swyddog wedi dechrau trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored ynglŷn â'r Cynllun Ceidwaid Ifanc ac wedi ymweld â PC Sir Benfro i ddysgu am eu gwaith. Ar ôl yr etholiad ac unwaith y bydd aelodau'r Awdurdod yn eu swyddi, bydd cyfarfod o'r 'grŵp tasg a gorffen Maniffesto Ieuenctid' yn cael ei drefnu. Gellir cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin os oes angen.</p> | NA |



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 13.10.2021

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|--|--|--|------------------|--|----------------------------|
| 11. Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu - Enwau Lleoedd | <p>PENDERFYNWYD</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. disgwyl cyngor pellach ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw. 2. disgwyl adroddiad gan y Panel ar y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo. 3. bod y Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) yn disodli'r Panel Craffu i fynd i'r afael â'r unrhyw faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, ac i estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen. | Cyflwyno adroddiad pellach maes o law. | JC | <p>Rhoddodd y Grŵp Llywio ystyriaeth i adroddiad gan Dr Dylan Foster-Evans, Pennaeth Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar 8 Mawrth. Bydd hyn yn sail i swyddogion baratoi arweiniad pellach ar ymdrin â lleoedd gyda mwy nag un enw lle. Yn seiliedig ar hyn, bydd nodyn canllaw cychwynnol yn cael ei baratoi gan swyddogion i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.</p> <p>Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys ffyrdd y gellir dathlu a hyrwyddo enwau lleoedd.</p> | NA |



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.02.2022

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|--|---|---------------------------|------------------|--|----------------------------|
| 13. Cydnerthedd yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff | PENDERFYNWYD: Cadeirydd yr Awdurdod i alw cyfarfod o'r Aelodau i ystyried capasiti / rôl y Tîm Rheoli. Enwebwyd yr Aelodau a ganlyn:- Cynghorwyr Annwen Hughes, Alwyn Gruffydd, Elwyn Edwards; Mr Owain Wyn, Mr Tim Jones a Ms Sarah Hattle. | Cadeirydd i alw cyfarfod. | Cadeirydd | Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar 30 Mawrth 2022 gyda chyfarfod arall yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau Mai 2022. | NA |

Cynllun Archwilio 2022 – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2916A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan hwn ei hun unrhyw swyddogaethau.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, phan fo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cynllun Archwilio 2022

| | |
|-------------------------------------|---|
| Ynglŷn â'r ddogfen hon | 4 |
| Fy nyletswyddau | 4 |
| Effaith COVID-19 | 5 |
| Archwilio datganiadau ariannol | 5 |
| Archwilio perfformiad | 7 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 9 |
| Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen | 9 |

2022 Cynllun Archwilio

Ynglŷn â'r ddogfen hon

- 1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y [Cod Ymarfer Archwilio](#).

Fy nyletswyddau

- 2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol.

Archwilio datganiadau ariannol

- 3 Bob blwyddyn, rwy'n archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (Yr Awdurdod) i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

Gwerth am arian

- 4 Mae'n rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.

Egwyddor datblygu cynaliadwy

- 5 Mae angen i'r Awdurdod gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

Effaith COVID-19

- 6 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- 7 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

Archwilio datganiadau ariannol

- 8 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:
 - barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' datganiadau ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022; ac
 - asesiad ynghylch pa un a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blyneddolwr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a pha un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â fy ngwybodaeth i am yr Awdurdod.
- 9 Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon gan y cyhoedd (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).
- 10 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Awdurdod cyn cwblhau'r archwiliad.
- 11 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (a osodwyd ar 5% o berthnasedd yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.
- 12 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

Risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

- 13 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u nodi ar gyfer archwiliad yr Awdurdod.

Arddangosyn 1: risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol allweddol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|--|--|
| Risgiau arwyddocaol | |
| <p>Mae'r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i'r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o'r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33].</p> | <p>Byddwn ni yn:</p> <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb y cofnodion yn y dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd; a• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. |
| Risgiau archwilio eraill | |
| <p>Ailbriso asedau Mae asedau tymor-hir yr Awdurdod wedi'u hamserlennu i'w hailbriso yn 2021-2022 gan y priswyr allanol. Bydd hyn yn debygol o arwain at addasiadau ailbriso perthnasol yn y datganiadau ariannol.</p> | <p>Byddwn yn adolygu ac yn profi'r ailbrisiadau asedau a'r cofnodion cyfrifyddu cysylltiedig a gwblhawyd yn ystod 2021-22.</p> |
| <p>Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y risgiau o gamddatganiad perthnasol a threfn fy archwiliad. Mae'r taliadau wedi'u darparu drwy nifer o gynlluniau gwahanol yn ystod 2021-22 ac mae'r symiau dan sylw yn berthnasol i'r cyfrifon.</p> <p>Gall enghreifftiau o risgiau archwilio yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• Risgiau o dwyll/gwallau | <p>Byddwn yn adolygu'r ffrydiau cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cadarnhau'r driniaeth gyfrifyddu briodol gyda'r awdurdod.</p> |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|--|------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> Newidiadau i ragdybiaethau gan gynnwys prisio asedion a darpariaethau gwyliau blynyddol sydd wedi cronni | |

Archwilio perfformiad

- 14 Yn ogystal â fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel y nodir ar dudalen 4 mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.
- 15 Mewn ymateb i'r pandemig, rwyf wedi mabwysiadu dull hyblyg o wneud fy ngwaith archwilio perfformiad o ran y testunau a gwmpesir ac o ran methodoleg. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a darparu mwy o adborth mewn amser real a hynny mewn ystod o fformatau.
- 16 Ar gyfer 2022-23, rwy'n bwriadu parhau â'r dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac yn amserol, a phan fo'n bosibl i rannu dysgu'n gyflymach.
- 17 Yn ystod 2020-21, ymgynghorais â chyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y byddaf yn ymdrin â fy nyletswyddau mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 2020-2025.
- 18 Ym mis Mawrth 2021, ysgrifennais at y cyrrff cyhoeddus a ddynodwyd o dan y Ddeddf yn nodi fy mwriadau, sy'n cynnwys a) cynnal archwiliadau penodol o sut mae cyrrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant a b) uno fy mhrif archwiliadau datblygu cynaliadwy o gamau i gyflawni amcanion llesiant â fy rhaglenni archwilio cenedlaethol a lleol.
- 19 Mae fy archwilwyr yn cysylltu â'r Awdurdod i gytuno ar yr amser mwyaf priodol i archwilio'r modd y pennir amcanion llesiant. Bydd archwiliad o'r camau i gyflawni amcanion llesiant yn cael ei gynnal fel rhan o'r gwaith a nodir yn y cynllun archwilio hwn a chynlluniau archwilio olynol, gan arwain at fy adroddiad statudol o dan y Ddeddf yn 2025.
- 20 Ar gyfer 2022-23 caiff y gwaith hwn ei nodi isod.

Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2022-23

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|----------------|
| I'w gadarnhau yn dilyn y rhaglen ymgynghoriad cyfredol. | |

- 21 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Yn benodol, mae'n ystyried pynciau y gellir eu datblygu drwy ein harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a/neu drwy waith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Wrth i ni ddatblygu a chyflawni ein rhaglen waith yn y dyfodol, byddwn yn rhoi themâu allweddol ar waith yn ein strategaeth pum mlynedd newydd, sef:
- darparu rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel; a gefnogir gan
 - ddull o ran cyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith sylweddol
- 22 Lluniwyd y meysydd posibl y canolbwyntir arnynt ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad yng nghyd-destun tair thema allweddol o'n dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn hydref 2021, sef: byd sy'n newid; y pandemig sy'n parhau; a thrawsnewid y modd y cyflwynir gwasanaeth. Gwahoddwyd sylwadau hefyd ar feysydd posibl ar gyfer gwaith dilynol.
- 23 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i'r Awdurdod.

Swyddogaethau archwilio statudol

- 24 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan y cyhoedd. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:
- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
 - Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.
- 25 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

- 26 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:
- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y bwriedir cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwylledig ac maent wedi bod trwy adolygiad sicrhau ansawdd cadarn;
 - mae'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen y cytunwyd arni ar gyfer cyflawni archwiliadau;
 - bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
 - rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf;
 - mae rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol; a
- 27 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

Ffi

- 28 Fel y nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus mewn ansawdd archwilio ac mewn ymateb i bwysau cost cynyddol.
- 29 Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2022 yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 3.5% o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol yn 2020. Mae'r gostyngiad o ganlyniad i waith ychwanegol yr oedd ei angen yn 2020-21 yn ymwneud ag uwchraddio'r system 'Exchequer'.

Arddangosyn 3: ffi archwilio

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£) ¹ | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|----------------------------------|-------------------------------|
| Archwilio'r cyfrifon ² | 28,553 | 30,970 |
| Gwaith archwilio perfformiad ³ | 17,815 | 17,084 |
| Cyfanswm y ffi | 46,368 | 48,054 |

- 30 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Awdurdod yn gyntaf.
- 31 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: [Cynllun Ffioedd 2022-23](#).

Y tîm archwilio

- 32 Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 4**.

¹ Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw'n cael ei chodi arnoch.

² Yn daladwy o fis Tachwedd 2021 hyd fis Hydref 2022.

³ Yn daladwy o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2023.

Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Swyddogaeth | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|----------------|--|--------------|--|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Rachel Freitag | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829359 | rachel.freitag@archwilio.cymru |
| Sabel Wiliam | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829358 | sabel.wiliam@archwilio.cymru |
| Nick Selwyn | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320612 | nick.selwyn@archwilio.cymru |
| Euros Lake | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320517 | euros.lake@archwilio.cymru |

- 33 Gallwn gadarnhau bod pob aelod o fy nhîm yn annibynnol arnoch chi a'ch swyddogion.

Amserlen

- 34 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 5**.
- 35 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â chyfrifon yr Awdurdod. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004.

Arddangosyn 5: Amserlen archwilio

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|--|--------------------------|
| Cynllun Archwilio 2022 | Mawrth – Ebrill 2022 | Ebrill 2022 |
| Gwaith archwilio Datganiadau ariannol: <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol Barn ar y Datganiadau Ariannol | Medi 2022 | Hydref 2022 |
| Gwaith archwilio perfformiad: <ul style="list-style-type: none"> I'w gadarnhau yn dilyn y rhaglen ymgynghoriad cyfredol. | Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Awdurdod a byddant yn cael eu nodi yn y sesiynau briffio prosiect penodol a gaiff eu creu ar gyfer pob darn o waith. | |
| Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol | Amherthnasol | Rhagfyr 2022 |



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English

| | |
|----------------------|---|
| CYFARFOD | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| DYDDIAD | 27 Ebrill 2022 |
| TEITL | Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu |
| ADRODDIAD GAN | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| PWRPAS | Trafod a mabwysiadu'n ffurfiol yr argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu |

1 Cefndir

- 1.1 Yn ddiamau, bydd aelodau'n cofio trafod gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu yn fanwl iawn yn y Gweithgor Aelodau ar y 6ed o Ebrill pan benderfynwyd, yn amodol ar ddiwygio fel y trafodwyd, bod yr adroddiad wedi'i gymeradwyo i'w fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 27ain o Ebrill 2022.
- 1.2 Mae'r adroddiad a nodir isod yn cynnwys y diwygiadau a awgrymwyd yn y Gweithgor.

2 Crynodeb o holl brif argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu (fel y'i diwygiwyd)

2.1 Cod Llywodraethu Corfforaethol

- 2.1.1 Mae drafft wedi'i ddiweddarau o God Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod sydd wedi'i baratoi i adlewyrchu fframwaith cyfredol CIPFA ac mae wedi'i atodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1. Cynigir bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig hwn yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

2.2 Adolygu Perfformiad

- 2.2.1 Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'n ffurfiol y broses ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant a Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

2.3 Rôl Strategol Aelodau

- 2.3.1 Adolygu a diweddarau disgrifiadau rôl yn unol â'r materion a gofnodwyd. Mae rolau wedi'u diweddarau wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad 3.
- 2.3.2 Argymhell datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau, ac i ddechrau:
 - 2.3.2.1 Argymhell bod Asesiad Sgiliau cyfunol yn cael ei gynnal trwy holiadur i'r holl Aelodau ym mis Mai 2022. Ar gyfer pob Aelod newydd yr adeg hynny, byddai'n orfodol cwblhau'r asesiad.
 - 2.3.2.2 Adolygu a gwella cynnwys y sesiynau anwytho mewnol a roddir i Aelodau newydd mewn pryd ar gyfer Aelodau newydd ym mis Mai 2022.
 - 2.3.2.3 Ymchwilio i weld a allai CLILC ddatblygu pecyn hyfforddi ar gyfer y 3 Pharc.
 - 2.3.2.4 Cytuno ar restr o hyfforddiant gorfodol i aelodau, megis safonau moesegol, y cod ymddygiad ac ati. Rhaglen hyfforddi i'w datblygu ymhellach mewn papur yn y dyfodol i Weithgor Aelodau
 - 2.3.2.5 Pawb a benodir yn Gadeirydd / Is-Gadeirydd i gael cynnig hyfforddiant ar Gadeirio cyfarfodydd.
 - 2.3.2.6 Mae trefn adolygu flynyddol ffurfiol yn ei lle ar gyfer Aelodau annibynnol. Mae hyn i'w ymestyn i bob Aelod.
 - 2.3.2.7 Yn ogystal ag adolygiadau blynyddol, mae angen cyfleoedd ychwanegol i gefnogi Aelodau newydd. Penodi Aelod sy'n Fentor ar gyfer pob Aelod newydd a fyddai'n galluogi trafodaethau ar yr hyn i'w ddisgwyl a dynameg pwyllgorau. Byddai hyn yn rhoi cyfle i Aelodau newydd godi unrhyw bryderon ynghylch bwlio a bygythiadau, yn ogystal â derbyn cyngor gan Aelodau profiadol ar ystod o faterion a fyddai'n cynorthwyo unigolyn i lywio'r rôl newydd yn llwyddiannus.
 - 2.3.2.8 Penodi aelod i arwain ar fentora Aelodau.

2.4 Strwythur a Rôl Pwyllgorau a Chraffu Strategol

- 2.4.1 Argymhell parhau gyda'r strwythur pwyllgorau presennol.
- 2.4.2 Diwygio Cynllun Dirprwyo'r Awdurdod i roi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth benodol gan yr Awdurdod), yn hytrach na threfnu cyfarfod Awdurdod arbennig ychwanegol ar gyfer un eitem. Gan fod pob Aelod yn eistedd ar y pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, byddai hyn yn galluogi pob Aelod i gymryd rhan.
- 2.4.3 Grwpiau Tasg a Gorffen i gytuno ar Gylch Gorchwyl o'r dechrau un sy'n nodi dyddiad adrodd terfynol, er mwyn sicrhau bod gan y grwpiau ffocws.
- 2.4.4 Dylid adolygu penodi Aelodau ar Grwpiau Tasg a Gorffen. Dylid penodi pobl ag arbenigedd neu ddiddordeb yn y pynciau.
- 2.4.5 Cysylltu â'r holl Aelodau cyn cyfarfod y pwyllgor lle mae sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen yn bwnc penodol i'w drafod, i ofyn i Aelodau sydd â diddordeb mewn eistedd ar y grŵp i gynnig eu henwau ymlaen llaw.

- 2.4.6 Rhaglenni i'r Grŵp Tasg a Gorffen i'w hanfon at yr holl Aelodau, gan nodi'n glir yr Aelodau hynny sydd wedi'u penodi i'r grŵp (ac felly y disgwylir iddynt fod yn bresennol) a'r Aelodau eraill a all fod yn bresennol trwy ddisgresiwn y Cadeirydd os dymunant. Gall Aelodau nad ydynt wedi'u penodi i'r Grŵp Tasg a Gorffen cymryd rhan ond ni fyddant yn gallu pleidleisio ar gynigion.
- 2.4.7 Argymhell oedi cyn gosod pynciau craffu hyd nes gwelir cynnwys Llythyr Cylch Gorchwyl Terfynol Y Gweinidog, ond yn ddarostyngedig i hynny cefnogi'r meysydd canlynol ar gyfer Grwpiau Tasg a Gorffen yn y dyfodol, sef:
- 2.4.7.1 Camau Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd
 - 2.4.7.2 Gweithredu ar yr Argyfwng Bywyd Gwylt a Natur
 - 2.4.7.3 Cynllunio Wrth Gefn a sut yr ydym yn ymdrin â digwyddiadau yn y dyfodol

2.5 Cyfarfodydd y Dyfodol a Mynediad i'r Cyhoedd

- 2.5.1 Darlledu cyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn fyw ar y wefan yn y dyfodol. Uwchlwytho recordiadau o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ôl y cyfarfod er mwyn i'r cyhoedd eu gweld.
- 2.5.2 Symud ymlaen gyda threfniadau heb gyfieithu cyfraniadau Saesneg.
- 2.5.3 Cyflwyno system cyn-gofrestru ar gyfer y cyhoedd.
- 2.5.4 Staff i ymchwilio i'r lleoliad gorau ar gyfer pwyllgorau hybrid a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod i'w gymeradwyo maes o law.

2.6 Adolygiad o Faterion a Godwyd gan y Gweinidog

- 2.6.1 Y Gorchmynion Sefydlog Diwygiedig Drafft yn ymwneud â Chontractau i'w cyflwyno i'r Awdurdod i'w mabwysiadu maes o law.
- 2.6.2 Yn dilyn mabwysiadu, datblygu canllawiau ar hyrwyddo contractau Awdurdod yn briodol gan staff, gyda phwyslais arbennig ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- 2.6.3 Yn dilyn mabwysiadu, hyfforddiant ymwybyddiaeth i'w roi i staff perthnasol ar ei weithrediad.
- 2.6.4 Mae un agwedd wedi'i chwblhau eisoes, sef adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mawrth 2022 ar ddatblygu a diffinio'n glir broses gwneud penderfyniadau symlach i gwrdd â therfynau amser cyflwyno ar gyfer Cyllid Llywodraeth Cymru.

3 ARGYMHELLIAD

- 3.1 Mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ddiweddarau fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.**
- 3.2 Mabwysiadu'r broses ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â Datganiad Llesiant a Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.**
- 3.3 Cytuno ar y disgrifiadau rôl ddiweddaraf o aelodau a chadeiryddion fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.**
- 3.4 Datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau fel y nodir ym mharagraffau 2.3.2.1 – 2.3.2.7 yr adroddiad hwn.**
- 3.5 Penodi aelod i arwain ar fentora Aelodau.**
- 3.6 Bod yr Awdurdod yn parhau gyda'i strwythur pwyllgorau presennol ond y dylai'r Awdurdod yn y dyfodol ystyried newid i Gynllun Dirprwyo'r Awdurdod i roi'r hawl i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wneud penderfyniadau terfynol ar adroddiadau ariannol ac adroddiadau eraill (oni bai bod angen cymeradwyaeth penodol gan yr Awdurdod).**
- 3.7 Cylch Gorchwyl a gwaith Grwpiau Tasg a Gorffen y dyfodol i ddilyn paragraffau 2.4.3 – 2.4.6 o'r adroddiad hwn.**
- 3.8 Bwrw ymlaen â chyfarfodydd yn y dyfodol a mynediad cyhoeddus fel y nodir ym mharagraffau 2.5.1 – 2.5.4 yr adroddiad hwn.**
- 3.9 Bod y Rheolau Sefydlog yn ymwneud â chontractau yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod maes o law gyda hyfforddiant priodol i staff fel y nodir ym mharagraffau 2.6.1 – 2.6.3 yr adroddiad hwn.**

PAPURAU CEFNDIR

Atodiad 1: Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi'i Ddiweddarau (Drafft)

Atodiad 2: Mekanwaith ar gyfer Adolygu Perfformiad

Atodiad 3: Disgrifiadau Rôl Ddiwygiedig ar gyfer Cadeirydd / Is-Gadeirydd ac Aelodau (Drafft)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



Cod Llywodraethu Corfforaethol

Drafft Rhagfyr 2021

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English*

1. Cyflwyniad

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai pwrpasau Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth ddilyn y pwrpasau hyn, i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ymrwmo i egwyddorion llywodraethu corfforaethol da wrth gyflawni ei bwrpasau statudol. Drwy ddatblygu, mabwysiadu a gweithredu a monitro Cod Llywodraethu Corfforaethol yn barhaus mae'r Awdurdod yn cadarnhau ei ymrwymiad ffurfiol a'i fwriadau parhaus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn gyson ag egwyddorion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Fframwaith Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdod Lleol (SOLACE) sy'n Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2016).

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn disgrifio'n gynhwysfawr ymrwymiad a dealltwriaeth yr Awdurdod i lywodraethu corfforaethol, a'i ddealltwriaeth ohono, ac mae'n amlinellu'r trefniadau y mae wedi'u rhoi ar waith i sicrhau gweithredu a monitro effeithiol parhaus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn gwneud darpariaeth am ymrwymiad ar y cyd gan Aelodau a swyddogion i'r egwyddorion y mae'n cynnwys, yn ogystal â datganiad o sicrwydd a lofnodwyd ar y cyd gan y Cadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod egwyddorion llywodraethu corfforaethol nid yn unig yn cael eu hymgorffori a'u rhaeadru'n llawn ledled yr Awdurdod, ond eu bod yn cael cefnogaeth lawn yr holl Aelodau yn ogystal â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau a nodir yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn unol â hynny, bydd ein prosesau gwneud penderfyniadau yn sicrhau ein bod yn cadw'r egwyddorion canlynol wrth galon cynllunio a chyflawni ein gwaith er mwyn cyfrannu at y Nodau Lles.

Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy

- Tymor hir
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cyfranogiad
- Atal

Mae nodau llesiant mabwysiedig yr Awdurdod, a ddatblygir trwy ymgynghori ac

ymgysylltu trylwyr, nid yn unig yn arwain yr holl weithgareddau busnes yn yr Awdurdod, ond yn bwydo'n uniongyrchol i'r Nodau Lles Cenedlaethol fel y nodir yn y Ddeddf.

Nodau Lles Cenedlaethol

- Cymru Ffyniannus
- Cymru Gydnherth
- Cymru Iachach
- Cymru Fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol yn fyd-eang

Yr Iaith Gymraeg

Yn unol â Mesur y Gymraeg 2011, mae gan yr iaith Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei drin yn llai ffafriol. Yn ogystal â'i gwarchod mae'n rhaid i'r Awdurdod lunio Strategaeth Hybu'r Gymraeg sy'n nodi sut y bydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith a chynyddu'r nifer o siaradwyr Gymraeg yn yr ardal. Mae sicrhau fod Eryri yn lle mae'r Gymraeg yn ffynnu i'w weld bellach yng nghyd-destun amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru o Gymraeg 2050 - sef ei huchelgais i weld miliwn o bobl Cymru yn mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050.

Ers ei sefydlu, mae'r Awdurdod wedi bod yn weithgar iawn o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Fel y brif iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol yn y Parc Cenedlaethol, mae'r Gymraeg wedi'i hadnabod fel un o rinweddau arbennig Eryri ac wedi'i gynnwys yng Nghynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn rhan fywiog o'n bywyd bob dydd.

Ar lefel ymarferol, mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail cydraddoldeb o ran yr iaith Gymraeg a Saesneg. Mae pob agwedd ar fusnes a gwasanaethau'r Awdurdod ar gael yn llawn yn y ddwy iaith, sy'n cael ei alluogi gan fod mwyafrif y staff yn gwbl ddwyieithog. Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio'n llawn yn niwylliant ac ethos y sefydliad.

2. Pam Mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol?

Mae mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ffordd arall y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dangos ei gydnabyddiaeth o'r ffaith bod Awdurdod effeithiol yn dibynnu ar sefydlu a chynnal hyder pobl leol yn Aelodau a swyddogion yr Awdurdod. Mae llywodraethu corfforaethol da yn tanategu hygredd a hyder yn yr arweinyddiaeth ac mae'n ffurfio'r sylfaen lle darperir holl wasanaethau'r Awdurdod.

Mae mabwysiadu, monitro a chydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i wella cyfreithlondeb yr Awdurdod ac mae'n cynyddu'r ymddiriedaeth a roddir yn yr Awdurdod gan bobl leol, ymwelwyr a rhanddeiliaid.

Mae llywodraethu cryf, tryloyw ac ymatebol yn galluogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i roi dinasyddion yn gyntaf trwy ddilyn ei nodau a'i flaenoriaethau yn effeithiol, a thrwy eu seilio ar fecanweithiau priodol ar gyfer rheoli perfformiad a risg.

Er mwyn cynnal hyder dinasyddion, rhaid i'r mecanweithiau hyn fod yn gadarn a rhaid gweld eu bod yn gadarn.

At ei gilydd, mae mabwysiadu ac ymrwymo i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi'r sail yn ei le i'r Awdurdod cyfan ymrwymo i'r ffordd y mae'n bwriadu cyflawni ei rôl o ran arwain a chynrychioli'r gymuned, gan ddarparu cyfleoedd i bawb, gan sicrhau y canolbwyntir yn gryf ar gwsmeriaid ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud.

3. Beth yw llywodraethu corfforaethol ?

Mae gan yr Awdurdod rôl allweddol wrth gyflawni ei bwrpasau statudol er budd ei gymuned leol a'r genedl. Mae awdurdod cyhoeddus effeithiol yn dibynnu ar hyder y cyhoedd yn yr Aelodau a swyddogion yr Awdurdod, ac mae systemau Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn darparu hyder mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio sut mae sefydliadau'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r hyn y maent yn ei wneud ac mae Llywodraethu Corfforaethol da yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyflawni eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, didwylledd a gonestrwydd. Ar gyfer awdurdodau cyhoeddus mae hyn hefyd yn cynnwys sut mae Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cysylltu â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried bod Llywodraethu Corfforaethol yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn mewn modd amserol, yn gynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a hefyd y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Awdurdod a sut y mae'n atebol i ac yn ymgysylltu a'i randdeiliaid.

4. Pam mae angen Cod Llywodraethu Corfforaethol arnom?

Mae Llywodraethu Corfforaethol yn bwysig oherwydd ei fod yn hanfodol o ran:

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel

Mae gwendidau llywodraethu cenedlaethol wedi arwain at fethiant gwasanaeth a defnydd aneffeithiol o adnoddau cyhoeddus. Mae sefydliadau sy'n perfformio ar lefel uchel, ar y llaw arall, yn meddu ar drefniadau llywodraethu effeithiol.

- Codi ymddiriedaeth y cyhoedd

Cynyddir ymddiriedaeth y cyhoedd pan fydd ansawdd y gwasanaethau y maent hwy a'u teuluoedd yn ei brofi yn uchel, a phan fydd sefydliadau yn cael eu gweld fel rhai agored a gonest wrth gyfathrebu eu perfformiad, ac wrth ddsygu oddi wrth eu camgymeriadau.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor llywodraethu da:

Egwyddor 1: Ymddwyn yn onest, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

Egwyddor 2: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Egwyddor 4: Penderfynu ar yr ymriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf

Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Egwyddor 7: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae'r Cod hwn yn disgrifio sut y bydd yr Awdurdod yn cwrdd â, ac yn dangos ei ymrwymiad i Lywodraethu Corfforaethol da mewn perthynas â'r saith Egwyddor hyn, sut y bydd yn cyflawni hyn a phwy fydd yn monitro ac yn adolygu'r trefniadau llywodraethu.

Er bod y cod hwn yn seiliedig ar 7 Egwyddor Llywodraethu Da fel yr amlinellwyd uchod, mae yna egwyddorion a fframweithiau moesegol eraill sy'n berthnasol i waith yr Awdurdod ac i ymddygiad ei Aelodau a'i swyddogion.

Fframwaith Safonau Moesegol Cymru

Wedi'i sefydlu gan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad moesegol gan Aelodau a swyddogion awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn cynnwys deg egwyddor ymddygiad cyffredinol ar gyfer Aelodau (sy'n ymgorffori 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' yr Arglwydd Nolan).

Adolygiad o Dirweddau Dynodedig Cymru

Roedd yr adroddiad terfynol yn cynnwys set o egwyddorion llywodraethu da y cytunwyd arnynt. Maent yn adlewyrchu dimensiwn Cymraeg o reoli cynaliadwy egwyddorion adnoddau naturiol o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, nodau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ffyrdd o weithio.

Mae Atodiad 1 yn dangos sut mae'r ddwy set o egwyddorion hyn yn cydblethu â'r 7 Egwyddor Llywodraethu Da y mae'r Cod hwn yn seiliedig arnynt.

5. Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod

Egwyddor 1:

Ymddwyn yn onest, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

Dim ond os oes gan y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus y safonau ymddygiad uchaf ac yn annog eraill i wneud hynny y gellir cyflawni safonau ymddygiad uchel a llywodraethu effeithiol.

Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i fabwysiadu diwylliant o ymddygiad yn seiliedig ar werthoedd a rennir, egwyddorion moesegol ac ymddygiad da.

Cyflawnir hyn trwy fabwysiadu a pharhau i adolygu:

- Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau
- Cod Ymddygiad ar gyfer Staff
- Polisi Seinio Rhybudd / Chwythu'r Chwiban
- Strategaeth Gwrth-Dwyll a Llygredigaeth
- Polisi Rhoddion a Lletygarwch
- Rheolau Sefydlog
- Cynllun Dirprwyo
- Cofrestr Buddiannau Aelodau
- Proses Cwynion Ffurfiol Corfforaethol
- Gwerthusiadau a Hyfforddiant

Egwyddor 2:

Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Nid yw'n ddigonol i'r Awdurdod wneud pethau yn y ffordd iawn mae'n rhaid i ni hefyd gael ein gweld yn gwneud pethau yn y ffordd iawn. Mae hyn yn gofyn am ymgysylltu'n llawn ag ystod amrywiol o bobl, trwy broses sydd wedi'i chynllunio a'i hadnoddu mewn ffordd sy'n deg.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy:

- Ffurio a chynnal perthnasoedd sy'n parchu ei gilydd gyda sefydliadau eraill.
- Gweithio gyda phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus i helpu cwsmeriaid a rhanddeiliaid i ddeall ein priod gyfrifoldebau a'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.
- Sefydlu a chynnal fforwm partneriaeth Fforwm Eryri i ddod â phawb sy'n ymwneud â dyfodol Eryri ynghyd, a fydd yn symbylu ein dull o weithio ar y cyd.
- Ymgysylltu ag ymgynghori mewn ffordd ystyrlon a thrwy fecanweithiau sy'n ceisio cipio a chofleidio barn yr holl bartion perthnasol.
- Gweithredu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

- Gweithredu ei Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- Gweithredu gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
- Cynnal ei fusnes mewn ffordd agored a thryloyw (gan gynnwys ymchwilio i'r ffordd orau o weithredu cyfarfodydd pwyllgor hybrid sy'n ymgorffori mynediad cyhoeddus).

Egwyddor 3:

Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae prosesau a dyletswydd yr Awdurdod wedi'u nodi gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn diffinio canlyniadau fel a ganlyn:

- Cynhyrchu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) mewn partneriaeth ag ystod amrywiol o randdeiliaid, a'i adolygu bob pum mlynedd.
- Cynhyrchu Datganiad Lles yn nodi amcanion llesiant a'r canlyniadau a ddymunir sy'n ymgorffori'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy.
- Cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol, a'i adolygu bob pum mlynedd.
- Adrodd yn rheolaidd ar gynnydd a chanlyniadau

Egwyddor 4:

Penderfynu ar yr ymriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf

Mae gwneud penderfyniadau gwybodus yn rhan sylfaenol o lywodraethu corfforaethol da. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fod yn drylwyr wrth archwilio perfformiad.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y broses benderfynu yn cynnwys asesiad risg manwl gan gynnwys:

- Goblygiadau ariannol, cyfreithiol ac adnoddau dynol (bydd awduron adroddiadau yn atebol os ydyn nhw'n darparu cyngor eu hunain).
- Asesiadau effaith cydraddoldeb a chynaliadwyedd.
- Risgiau a chymau gweithredu lliniarol.

Cynhelir adolygiadau rheolaidd ac amserol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar:

- Gwariant cyllideb a phrosiect.
- Perfformiad yn erbyn yr amcanion llesiant a nodir yn y Datganiad Lles.
- Cofrestr Risg yr Awdurdod.

Egwyddor 5:

Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

Mae sicrhau bod gan Aelodau a swyddogion y sgiliau angenrheidiol i weithredu'r sefydliad yn agwedd bwysig ar lywodraethu.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Awdurdod y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnynt i berfformio'n dda.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni hyn trwy'r hyn a ganlyn:

- Gweithredu Strategaeth Datblygu Aelodau .
- Datblygu dealltwriaeth a sgiliau arwain a gallu ar draws yr Awdurdod.
- Gweithredu cynllunio olyniaeth effeithiol i baratoi ar gyfer newidiadau personél yn y dyfodol.
- Datblygu a chynnal y broses Werthuso ar gyfer Staff.
- Sicrhau bod gwybodaeth a hyfforddiant ar gael fel sy'n briodol i Aelodau a swyddogion, i'w galluogi i gyflawni eu rolau.

Egwyddor 6:

Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

Bydd gan yr Awdurdod Strategaeth Rheoli Risg a bydd yn gweithredu system rheoli risg sy'n cynorthwyo i gyflawni ei nodau a'i flaenoriaethau corfforaethol, yn amddiffyn enw da'r Awdurdod ac asedau eraill ac yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a rheoliadol.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y system rheoli risg yn:

- Nodi a rheoli risgiau yn ffurfiol .
- Yn cynnwys Aelodau yn y broses rheoli risg.
- Yn cysylltu risgiau â rheolaethau mewnol ariannol a rheolaethau mewnol allweddol eraill.
- Yn ymgorffori cynllunio parhad gwasanaeth a busnes.
- Adolygu, ac, os oes angen, yn diweddarau ei brosesau rheoli risg o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â chyfraith cyllid ac yn cynhyrchu cyfrifon blynyddol yn unol â chanllawiau CIPFA. Mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cytuno ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn monitro cyllidebau bob chwarter. Mae hefyd yn gweithio'n agos gydag Archwilio Mewnol ac Allanol i sicrhau rheolaethau mewnol cadarn.

Egwyddor 7:

Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i broses benderfynu agored a thryloyw. Cyhoeddir yr holl Raglenni / Agendâu, Cofnodion a Dogfennau Cyfarfodydd ar Wefan yr Awdurdod.

Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal yn rhithiol ac yn cael eu darlledu ar sianel YouTube yr Awdurdod ar ôl y digwyddiad. Fel rhan o'r adolygiad o gyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol, ymchwilir a gweithredir opsiynau mynediad cyhoeddus a darlledu byw.¹

Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gydag Archwilio Mewnol ac Allanol i sicrhau bod ei brosesau'n cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer da, ac yn ymrwymo i weithredu argymhellion a wneir o ganlyniad i archwiliadau.

6. Monitro ac Adolygu

Mae Llywodraethu Corfforaethol Da yn ymofyn am yr hyn a ganlyn:

- Cyfranogiad gweithredol Aelodau a swyddogion ar draws yr Awdurdod.
- Datblygu, gweithredu a gwella diwylliant Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn barhaus.
- Paratoi, mabwysiadu a chynnal Cod Llywodraethu Corfforaethol cyfoes, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a'i gymhwyso'n barhaus.
- Cydlynu ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Hyrwyddo arfer gorau mewn Llywodraethu Corfforaethol ledled yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am fonitro ac adolygu trefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus trwy gyfrwng:

- Gwaith Archwilio Mewnol ac Allanol.
- Weithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro gwaith partneriaeth a phrosiectau.
- Adroddiadau a baratowyd gan reolwyr sy'n gyfrifol am agweddau ar y Cod hwn.
- Asiantaethau adolygu ac Arolygiaethau eraill.

¹ Nid oes mynediad cyhoeddus ar gael i gyfarfodydd pwyllgor ar hyn o bryd, ond bydd hyn yn cael ei adolygu.

Yn ogystal, cynhelir adolygiad penodol â ffocws bob 4 blynedd cyn etholiadau llywodraeth leol, sy'n arwain at Gyngorau Gwynedd a Bwrdeistref Sirol Conwy yn penodi Aelodau i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i fanteisio ar y dysgu a'r profiad a gafwyd dros y cylch llywodraeth leol a gweithredu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn i Aelodau newydd gael eu hethol am dymor newydd.

7. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a fydd yn darparu asesiad cyffredinol o drefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod ac arfarniad o'r rheolaethau allweddol sydd ar waith i reoli risgiau llywodraethu allweddol yr Awdurdod.

Bydd y Datganiad hefyd yn darparu manylion ynghylch ble mae angen gwneud gwelliannau.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan y Tîm Rheoli a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod, cyn iddo gael ei lofnodi gan Gadeirydd yr Awdurdod a'r Prif Weithredwr.

Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol yr Awdurdod a bydd yn cael ei archwilio gan ein Harchwilwyr Allanol.

Llofnodwyd

Wyn Jones
Cadeirydd

Emyr Williams
Prif Weithredwr

(Atodiad 1)

Sut mae'r Fframwaith Safonau Moesegol ac Egwyddorion Llywodraethu Tirweddau Dynodedig yn croesgyfeirio ag Egwyddorion Cod Llywodraethu'r Awdurdod.

| Egwyddorion Llywodraethu Da | Fframwaith Safonau Moesegol | Egwyddorion Llywodraethu Tirweddau Dynodedig |
|---|--|--|
| Egwyddor 1: Ymddwyn yn onest, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith | Gonestrwydd Uniondeb a Phriodoldeb Anhunanoldeb Dyletswydd i gynnal y Gyfraith | Tegwch a Hawliau Atebolrwydd a thryloywder |
| Egwyddor 2: Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid | Gonestrwydd Didwylledd Atebolrwydd Uniondeb a Phriodoldeb | Cyfreithlondeb Cyfranogiad a llais Tegwch a Hawliau Atebolrwydd a thryloywder |
| Egwyddor 3: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy | Stiwardiaeth Cydraddoldeb a Pharch Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau Stiwardiaeth | Datblygu a gweithredu gweledigaeth strategol ar gyfer yr ardal |
| Egwyddor 4: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd i'r eithaf | Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau Atebolrwydd Arweinyddiaeth | Rheoli perfformiad yn effeithiol Atebolrwydd a thryloywder |
| Egwyddor 5: Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo | Arweinyddiaeth Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau Uniondeb a Phriodoldeb | Rheoli perfformiad yn effeithiol |
| Egwyddor 6: Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref | Atebolrwydd Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau Stiwardiaeth Dyletswydd i gynnal y Gyfraith | Atebolrwydd a thryloywder Rheoli perfformiad yn effeithiol |
| Egwyddor 7: Gweithredu arferion da mewn tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol | Atebolrwydd Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith Uniondeb a Phriodoldeb | Atebolrwydd a thryloywder Cyfreithlondeb Rheoli perfformiad yn effeithiol |

Mecanwaith ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â'r Datganiad Llesiant a Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod

1. Mae Datganiad Llesiant yr Awdurdod yn cynnwys yr Amcanion Llesiant am gyfnod o bum mlynedd o 2021-26 ac felly ni fydd angen adolygiad blynyddol mwyach.
2. Bydd y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn parhau i gael ei mabwysiadu'n flynyddol a bydd yn bwydo'n uniongyrchol i'r Amcanion Llesiant a'r mesurau llwyddiant a gynhwysir ynddi.
3. Bydd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn ddigon i alluogi'r Awdurdod i asesu ei gynnydd o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant ac felly ni fydd angen Dangosyddion Perfformiad ar wahân. Gan fod hon yn ffordd newydd o fesur perfformiad byddai'n ddoeth adolygu effeithiolrwydd i ddechrau.
4. Bydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn craffu perfformiad ar y camau gweithredu a gynhwysir yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n rhoi cipolwg ar gynnydd bob chwarter.
5. Adroddiad blynyddol i'w baratoi a'i ystyried gan yr Awdurdod wedi i'r flwyddyn ddod i ben er mwyn asesu perfformiad cyffredinol ar gyrraedd Amcanion Llesiant yr Awdurdod.
6. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfle i'r Awdurdod asesu a oes angen egluro a diwygio unrhyw rai o'r Amcanion Llesiant ai peidio, neu a oes angen adolygiad llawn arnynt oherwydd amgylchiadau na ragwelwyd.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Disgrifiad Rôl Cadeirydd / Is-gadeirydd a Manyldeb Person

Cefndir

Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn bodoli i warchod a gwella Nodweddion Arbennig Eryri – ei harddwch naturiol, bywyd gwylt, a threftadaeth ddiwylliannol; hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad eang y cyhoedd ohonynt a, gydag eraill, meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau o fewn y Parc.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, treftadaeth ddiwylliannol, mynediad a hamdden, ond nid am ofal yr henoed, ysgolion, priffyrdd, a dyletswyddau eraill yr awdurdod lleol.

Rôl yr Awdurdod a'i Aelodau

Rôl Aelodau'r Awdurdod yw cytuno ar amcanion hirdymor ar gyfer y Parc Cenedlaethol trwy gynlluniau strategol y Parc Cenedlaethol (gweler isod) a gosod y blaenoriaethau a monitro ac adolygu gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae gan aelodau rôl allweddol wrth sicrhau bod yr amgylchedd naturiol a'r cymunedau lleol yn ein Parc yn cael gofal ac y'i cynhelir er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau.

Prif rôl Aelod o'r Awdurdod yw sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei lywodraethu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn atebol; darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad cyfan; a gweithredu fel 'llysgennad/eiriolwr' ar gyfer y Parc Cenedlaethol a gwaith yr Awdurdod.

Mae aelodau yn gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am lywodraethu da a defnydd o arian cyhoeddus.

Mae pob Aelod yn gweithio gyda'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) ac Aelodau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod ac i lywio a hyrwyddo perfformiad a rheolaeth yr Awdurdod fel ei fod yn darparu buddion i'r genedl a chymunedau lleol yn unol â Phwrpas y Parc Cenedlaethol.

Polisiau Strategol

Cynllun Eryri

[Cynllun Eryri](#) yw Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol statudol yr Awdurdod. Mae'r Cynllun yn cwmpasu ardal gyfan y Parc Cenedlaethol ac nid yw'n Gynllun ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig:

- Mae'n Gynllun ar gyfer pawb sy'n gweithio yn ardal y Parc Cenedlaethol sy'n cael effaith ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
- Mae'r Cynllun ar gyfer yr holl sefydliadau perthnasol sydd â dyletswyddau statudol mewn perthynas ag Eryri.
- Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer sefydliadau perthnasol. Bydd yn eu galluogi i gydymffurfio'n llawn â'u cyfrifoldeb statudol i roi sylw i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Adran 62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

- Mae hefyd yn Gynllun ar gyfer sefydliadau perthnasol o'r sector gwirfoddol a phreifat, yn ogystal â rheolwyr tir, cymunedau a busnesau.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi datblygu'r Cynllun hwn gyda chymorth a mewnbwn ein holl bartneriaid trwy fforwm y Parciau Cenedlaethol – [Fforwm Eryri](#). Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn ran annatod i'w chwarae wrth ofalu am Barc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos i gyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus.

Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r [Cynllun Datblygu Lleol](#) yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig a'r Mapiau Mewnosod a'r Cynigion ac ynghyd â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol bydd yn arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar bob datblygiad yn y dyfodol a chynllunio defnydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol.

Datganiad Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Rhaid i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru weithio i gyflawni gweledigaeth a rennir, a fynegir yn y Ddeddf fel y saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae gan gyrrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf ddyletswydd gyfreithiol i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Mae Datganiad Llesiant y Parc Cenedlaethol yn nodi amcanion llesiant yr Awdurdod, a sut y byddwn yn cyflawni'r saith nod llesiant gan gynnwys y rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd.

Yn sail i'n hamcanion llesiant, mae ein hegwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Gweledigaeth, Blaenoriaethau Gwasanaeth a Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Disgrifiad o'r Rôl

1. Atebolrwydd

- I'r Awdurdod Parc Cenedlaethol llawn.
- I'r Gweinidog perthnasol trwy gyfarfodydd bob hanner blwyddyn â Llywodraeth Cymru.
- I'r cyhoedd.

2. Pwrpas a Gweithgaredd Rôl

(a) Gweithredu fel symbol o rôl ddemocrataidd yr Awdurdod

- Hyrwyddo pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a darparu arweinyddiaeth strategol ddeinamig ac effeithiol mewn partneriaeth ag aelodau a'r Prif Weithredwr wrth gyflawni pwrpasau, nodau a gweledigaeth statudol yr Awdurdod, a thargedau perthnasol.
- Monitro perfformiad a chynnig arweiniad a chefnogaeth i aelodau i sicrhau bod statws cyhoeddus da'r Awdurdod yn cael ei gynnal.

- Cynrychioli'r Awdurdod yn ei berthynas â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol, ac ar grwpiau a phartneriaethau rhanbarthol.
- Cynrychioli barn yr Awdurdod yn ôl yr angen i'r wasg a'r cyfryngau, a chwarae rôl lysgenhadol wrth hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol â phartïon a sefydliadau allanol.
- Meithrin y berthynas waith â holl Barciau Cenedlaethol eraill y DU a hyrwyddo buddiannau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol trwy PCC, PCDU ac Europarc.

(b) Cadeirio cyfarfodydd yr Awdurdod

- Cadeirio cyfarfodydd yr Awdurdod, sicrhau y cydymffurfir â rheolau sefydlog ac arfer da ym mhob cyfarfod, a hyrwyddo a chefnogi llywodraethu agored a thryloyw.
- Darparu rheolaeth hyderus ac effeithiol o gyfarfodydd i hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir.
- Dangos uniondeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi.
- Dirprwyo camau i bwyllgorau a / neu is-bwyllgorau fel y bo'n briodol.

(c) Cynnal a hyrwyddo Cylch Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo'r Awdurdod

- Gweithio'n agos gydag aelodau eraill yr Awdurdod i sicrhau datblygiad polisiâu effeithiol a'r fframwaith cyllidebol ar gyfer yr Awdurdod, a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
- Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

(ch) Cynnal a hyrwyddo Cylch Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo'r Awdurdod

- Gweithio gydag aelodau a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod gweithredoedd yr Awdurdod, ei benderfyniadau a'i ddefnydd o adnoddau yn gyson â phwrpasau'r dynodiad a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod.

(d) Gweithio gyda swyddogion i arwain y sefydliad

- Cydgyssylltu â'r Prif Weithredwr, a swyddogion priodol eraill, yn rheolaidd.
- Datblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r Prif Weithredwr, gan ddarparu cefnogaeth ac arweiniad yn ôl yr angen a hwyluso cyfathrebu a chydweithio rhwng aelodau a swyddogion.
- Gweithio gyda gweithwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn perthynas â gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr Awdurdod, rolau rheoli swyddogion a datblygu materion polisi.
- Monitro lles a pherfformiad y Prif Weithredwr a sicrhau bod proses arfarnu a datblygu effeithiol yn ei lle.

(dd) Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i faterion.
- Hyrwyddo datblygiad proffesiynol a phersonol aelodau i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol, gan weithio o fewn Fframwaith Rheoli Perfformiad yr Awdurdod i asesu perfformiad aelodau fel sy'n briodol ac adrodd i'r awdurdodau penodi yn ôl yr angen.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau a hyrwyddo'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.
- Cefnogi, a chadw at berthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng yr Awdurdod, Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; cyflwyno adroddiadau i'r Gweinidog ar ran yr Awdurdod a gweithio gydag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill i ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol a rhanbarthol.

(e) Rhaglennu Gwaith

- Sicrhau bod prosesau ar waith i gydymffurfio â gofynion llywodraethu ac archwilio mewnol ac allanol, a chadarnhau hyn trwy lofnodi'r Datganiad blynyddol ar gyfer Rheolaeth Fewnol.

3. Gwerthoedd a'r Cod Ymddygiad

- Ymrwymo i nodau a gwerthoedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gwerthoedd canlynol swydd gyhoeddus:
 - Bod yn agored a thryloyw
 - Gonestrwydd ac uniondeb
 - Goddefgarwch a pharch
 - Cydraddoldeb a thegwch
 - Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
 - Cynaliadwyedd
 - Dwyieithrwydd
- Cadw at y cod ymddygiad mewn swydd gyhoeddus:
 - Anhunanoldeb
 - Gonestrwydd
 - Uniondeb a phriodoldeb
 - Dyletswydd i gynnal y gyfraith
 - Stiwardiaeth
 - Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
 - Cydraddoldeb a pharch
 - Bod yn agored
 - Atebolrwydd
 - Arweinyddiaeth
 - Dwyieithrwydd

Rôl yr Is-gadeirydd / Dirprwy Gadeirydd

- Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd yn ei absenoldeb.
- Helpu'r Cadeirydd i gyflawni dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

Manyleb Person

Er mwyn cyflawni ei rôl fel y nodir yn y disgrifiad rôl, mae Cadeirydd effeithiol angen:

Cyflawni Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol

- Y gallu i hyrwyddo a chynrychioli'r Awdurdod fel mecanwaith effeithiol ar gyfer hyrwyddo a gwella cadwraeth o harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a'i fwynhad o'i rinweddau arbennig a meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Rhoi arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i'r Awdurdod

- Dealltwriaeth o rôl yr Awdurdod, a sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r rôl honno
- Gwybodaeth am gryfderau, gwendidau a materion allweddol y Parc Cenedlaethol.
- Dealltwriaeth o'r berthynas rhwng polisïau cenedlaethol a lleol.
- Meddu ar ymwybyddiaeth strategol dda o faterion sy'n wynebu'r Awdurdod.
- Dealltwriaeth dda o strategaethau, polisïau a gweithrediadau'r Awdurdod.
- Dealltwriaeth dda o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.
- Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth gref i'r Awdurdod.
- Y gallu i werthuso, arwain a mentora Aelodau'r Awdurdod.

Cynrychioli a gweithredu fel llysgennad i'r Awdurdod

- Sgiliau cyfathrebu lefel uchel i gyfathrebu â'r cyfryngau, y gymuned leol a'r gynulleidfa ehangach.

Rheoli ac arwain gwaith yr Awdurdod a Chadeirio cyfarfodydd yr Awdurdod

- Meddu ar y Sgiliau i Gadeirio Cyfarfodydd, gan gynnwys annog cyfranogiad gan yr holl Aelodau.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o amcanion polisi cenedlaethol.
- Trosolwg o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Swyddogion.
- Y gallu i hwyluso trafodaeth gytbwys ac i hyrwyddo consensws.

Gweithio gyda Swyddogion i arwain yr Awdurdod

- Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Swyddogion eraill.

Cynigir hyfforddiant priodol i alluogi Aelod i gyflawni ei rôl fel Cadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn effeithiol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Disgrifiad Rôl a Manyldeb Person

Cefndir

Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn bodoli i warchod a gwella Nodweddion Arbennig Eryri – ei harddwch naturiol, bywyd gwyllt, a threftadaeth ddiwylliannol; hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad eang y cyhoedd ohonynt a, gydag eraill, meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau o fewn y Parc.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, treftadaeth ddiwylliannol, mynediad a hamdden, ond nid am ofal yr henoed, ysgolion, priffyrdd, a dyletswyddau eraill yr awdurdod lleol.

Rôl yr Awdurdod a'i Aelodau

Rôl Aelodau'r Awdurdod yw cytuno ar amcanion hirdymor ar gyfer y Parc Cenedlaethol trwy gynlluniau strategol y Parciau Cenedlaethol (gweler isod) a gosod y blaenoriaethau a monitro ac adolygu gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae gan aelodau rôl allweddol wrth sicrhau bod yr amgylchedd naturiol a'r cymunedau lleol yn ein Parc yn cael gofal ac y'i cynhelir er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol eu mwynhau.

Prif rôl Aelod o'r Awdurdod yw sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei lywodraethu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn atebol; darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad cyfan; a gweithredu fel 'llysgennad/eiriolwr' ar gyfer y Parc Cenedlaethol a gwaith yr Awdurdod.

Mae aelodau yn gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am lywodraethu da a'r defnydd o arian cyhoeddus.

Mae pob Aelod yn gweithio gyda'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) ac Aelodau eraill i gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod ac i lywio a hyrwyddo perfformiad a rheolaeth yr Awdurdod fel ei fod yn darparu buddion i'r genedl a chymunedau lleol yn unol â Pwrpas y Parc Cenedlaethol.

Polisiau Strategol

Cynllun Eryri

[Cynllun Eryri](#) yw Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol statudol yr Awdurdod. Mae'r Cynllun yn cwmpasu ardal gyfan y Parc Cenedlaethol ac nid yw'n Gynllun ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig:

- Mae'n Gynllun ar gyfer pawb sy'n gweithio yn ardal y Parc Cenedlaethol sy'n cael effaith ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
- Mae'r Cynllun ar gyfer yr holl sefydliadau perthnasol sydd â dyletswyddau statudol mewn perthynas ag Eryri.
- Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer sefydliadau perthnasol. Bydd yn eu galluogi i gydymffurfio'n llawn â'u cyfrifoldeb statudol i roi sylw i bwrpasau y Parc Cenedlaethol wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Adran 62(2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
- Mae hefyd yn Gynllun ar gyfer sefydliadau perthnasol o'r sector gwirfoddol a phreifat, yn ogystal â rheolwyr tir, cymunedau a busnesau.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi datblygu'r Cynllun hwn gyda chymorth a mewnbwn ein holl bartneriaid trwy fforwm y Parciau Cenedlaethol – [Fforwm Eryri](#). Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn ran annatod i'w chwarae wrth ofalu am Barc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos i gyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus.

Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r [Cynllun Datblygu Lleol](#) yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig a'r Mapiau Mewnosod a'r Cynigion ac ynghyd â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol bydd yn arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar bob datblygiad yn y dyfodol a chynllunio defnydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol.

Datganiad Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio i gyflawni gweledigaeth a rennir, a fynegir yn y Ddeddf fel y saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae gan gyrff cyhoeddus sy'n destun y Ddeddf ddyletswydd gyfreithiol i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Mae Datganiad Llesiant y Parc Cenedlaethol yn nodi amcanion llesiant yr Awdurdod, a sut y byddwn yn cyflawni'r saith nod llesiant gan gynnwys y rhesymeg a'r camau y byddwn yn eu cymryd.

Yn sail i'n hamcanion llesiant, mae ein hegwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Gweledigaeth, Blaenoriaethau Gwasanaeth a Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Disgrifiad Rôl

1. Atebolrwydd

- I'r Awdurdod Parc Cenedlaethol llawn.
- I'r cyhoedd.

2. Pwrpas a Gweithgaredd Rôl

(a) Cynrychioli'r budd cenedlaethol

- Cymhwyso egwyddorion a phwrpasau'r Parciau Cenedlaethol i bob agwedd o wneud penderfyniadau.
- Dod â'r cyd-destun cenedlaethol i rym wrth wneud penderfyniadau.
- Bod yn eiriolwr dros Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

(b) Cynrychioli a chefnogi cymunedau

- Cynrychioli buddiannau'r boblogaeth a defnyddwyr holl ardal Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a gwasanaethu pob diddordeb / budd yn deg ac yn gyfartal.
- Bod yn eiriolwr ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Cysylltu ag aelodau eraill, prif awdurdodau, swyddogion a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael eu nodi, eu deall a'u cefnogi.
- Bod yn sianel gyfathrebu â'r gymuned ar strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd eang o'r Parc a chydag eraill i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau yn y Parc wrth arddel ei bwrpasau statudol.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad mewn cymunedau lleol.

(c) Gwneud penderfyniadau a goruchwyllo Perfformiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, cyrraedd at, a gwneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys, a goruchwyllo perfformiad.
- Canolbwyntio'n bennaf ar feysydd strategol a pholisi*.
- Cydnabod a chefnogi'r angen i ganiatáu awdurdod dirprwyedig i swyddogion i sicrhau darpariaeth weithredol esmwyth ac effeithiol, tra'n goruchwyllo a monitro perfformiad.
- Cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gwybodus a chytbwys wrth gael eich penodi ar bwyllgorau a phaneli Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Cefnogi egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd wrth wneud penderfyniadau.
- Hyrwyddo a sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

** Yn gyffredinol, materion strategol fydd y rhai sy'n effeithio ar sut mae'r Awdurdod yn cyflawni ei bwrpasau statudol arfaethedig (ei swyddogaethau o ran y set o bwerau a dyletswyddau y mae'n eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith) dros gyfnod sylweddol o amser ac ni fyddant yn cynnwys trefn arferol a phenderfyniadau 'dydd-i-ddydd'. Y penderfyniadau strategol hyn yw'r broses o olrhain cwrs yn seiliedig ar weledigaeth ac amcanion llesiant mabwysiedig yr Awdurdod.*

(d) Cynrychioli Awdurdod y Cenedlaethol Parc (yn ddarostyngedig eich bod yn cael eich penodi)

- Cynrychioli Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyrff allanol.
- Cynrychioli Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyrff partneriaeth lleol, gan hyrwyddo diddordeb cyffredin a chydweithrediad er budd pawb.
- Cynrychioli a bod yn eiriolwr dros Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol.

(d) Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i faterion.
- Darparu arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chefnogi gwasanaethau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn agored a thryloyw.
- Cefnogi, a chadw at berthnasoedd parchus, priodol ac effeithiol gyda gweithwyr, y cyhoedd ac aelodau eraill o Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau a'r safonau ymddygiad uchaf wrth gynrychioli Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

(dd) Datblygiad personol a'r rôl

- Nodi anghenion a chymryd rhan mewn cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol parhaus a ddarperir i aelodau gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

3. Gwerthoedd a Cod Ymddygiad

- Ymrwymo i werthoedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Bod yn agored a thryloyw
 - Gonestrwydd ac uniondeb
 - Goddefgarwch a pharch
 - Cydraddoldeb a thegwch
 - Gwerthfawrogiad o wahaniaeth diwylliannol
 - Dwyieithrwydd
 - Cynaliadwyedd
- Cadw at y cod ymddygiad mewn swydd gyhoeddus:
 - Anhunanoldeb
 - Gonestrwydd
 - Uniondeb a phriodoldeb
 - Dyletswydd i gynnal y gyfraith
 - Stiwardiaeth
 - Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
 - Cydraddoldeb a pharch
 - Bod yn agored
 - Atebolrwydd
 - Arweinyddiaeth
 - Dwyieithrwydd

Am fwy o wybodaeth ar y côd gweler [CLILIC Y Fframwaith Moesegol](#)

Manyldeb Person

Er mwyn cyflawni'r rôl a nodir yn y disgrifiad rôl, mae angen y canlynol ar Aelod effeithiol:

Cyflawni Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol

- Y gallu i hyrwyddo a chynrychioli'r Awdurdod fel mecanwaith effeithiol ar gyfer hyrwyddo a gwella cadwraeth o harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a'i fwynhad o'i rinweddau arbennig a meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Cyflawni'r rôl

- Cyfranogiad am dri neu bedwar diwrnod y mis fel rheol.
- Presenoldeb a chyfraniad i gyfarfodydd yr Awdurdod, ei bwyllgorau a'r gweithgorau, a chodi materion sy'n peri pryder trwy'r gweithdrefnau a'r mecanweithiau sefydledig a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.
- Darllen a deall, a'r cyfrifoldeb i ofyn am eglurhad lle bo angen gan Swyddogion Arweiniol, o ddeunydd briffio a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd fel y byddwch yn hollol barod ar gyfer unrhyw ddadl ar faterion ar draws ystod lawn cyfrifoldebau'r Awdurdod.

Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a pherthnasoedd

- Ymrwymiad i weithio er budd gorau'r Parc Cenedlaethol a'r Awdurdod ei hun.
- Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog a chynnal parch at benderfyniadau'r Awdurdod a bennir yn ddemocrataidd.
- Cydymffurfio â Safonau Ymddygiad, Atebolrwydd a Didwylledd Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Datblygiad personol a rôl

- Mynychu cyrsiau hyfforddi, sesiynau briffio a digwyddiadau priodol a drefnir neu a noddir gan yr Awdurdod a sefydliadau partner.

| | |
|----------------------|--|
| CYFARFOD | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| DYDDIAD | 27ain Ebrill 2022 |
| TEITL | ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL |
| ADRODDIAD GAN | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| PWRPAS | Trafod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. |

1 CEFNDIR

- 1.1 Yn ddiâu, bydd yr aelodau'n cofio bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 24ain Tachwedd 2021 pan drafodwyd adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn fanwl. Penderfynodd y pwyllgor y dylai'r Awdurdod dderbyn yr adroddiad drafft a'r argymhellion fel y'u cyflwynwyd gyda'r mân oblygiadau o ran adnoddau a fydd yn golygu bod angen cynnyddu cyllidebau presennol.
- 1.2 Mae'r Awdurdod bellach wedi derbyn adroddiad terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd i'w weld ar wefan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol', y mae dolen wedi'i nodi isod ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg:

Adroddiad Blynyddol - [Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2022 i 2023](#)

Annual Report - [Independent Remuneration Panel for Wales: annual report 2022 to 2023](#)

- 1.3 Nid yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi newid unrhyw agwedd ar yr adroddiad drafft o ran sut y mae'n ymwneud ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

GOBLYGIADAU ADNODDAU

Bydd gan y cynnydd mewn lwfansau a nodir uchod fân oblygiadau o ran adnoddau a fydd yn golygu bod angen cynyddu cyllidebau presennol.

ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

PAPURAU CEFNDIR

Adroddiad i'r pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau dyddiedig 24 Tachwedd 2021
Adroddiad Blynyddol



At:

Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd / Aelodau Cyngorau Sir a Chyngorau
Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac
Achub
Clercod Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref

24 Chwefror 2022

Annwyl Gydweithiwr

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol Adroddiad Blynyddol
2022/2023**

Amgaeir yr Adroddiad Blynyddol terfynol mewn perthynas â 2022/2023 sy'n weithredol o 1 Ebrill. Fodd bynnag, mae eleni hefyd yn flwyddyn ethol aelodau prif gyngorau a chyngorau cymuned a thref, felly bydd rhai o'r penderfyniadau yn weithredol o 9 Mai ymlaen. Nodir y dyddiadau effeithiol yn yr Adroddiad.

Diolch i'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r Adroddiad drafft a gyhoeddwyd ym mis Medi y llynedd. Mae'r Panel wedi ystyried y safbwyntiau a'r sylwadau a fynegwyd, a chafodd y rhain eu hystyried wrth ddod i'r casgliadau a adlewyrchir yn yr Adroddiad.

Mae'r Panel wedi cadarnhau'r cynnydd yng nghyflogau aelodau etholedig prif gyngorau, gyda chynnydd canlyniadol i aelodau Parciau Cenedlaethol ac

Awdurdodau Tân ac Achub. Yr unig newid sylweddol i'r Adroddiad drafft yw cynnwys adran newydd ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad oes unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol cynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, bydd y Panel yn cyhoeddi Adroddiad Atodol ar opsiynau yn dilyn trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyllid a Thollau EM ynghylch trethiant.

Hoffwn hefyd atgoffa pob awdurdod perthnasol o'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel, yn enwedig cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth i Aelodau (Atodiad 3) a Chyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol (Atodiad 4). Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr awdurdodau nad ydynt wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Dyma'r Adroddiad terfynol y byddaf yn ymwneud ag ef ar ôl dros 16 mlynedd fel aelod o'r Panel. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad a diolch i'r nifer fawr o aelodau a swyddogion cynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yr wyf wedi gallu ymgysylltu â hwy ar fusnes y Panel.

Yn gywir



John Bader
Cadeirydd

EITEM RHIF 11

| | |
|----------------------|---|
| CYFARFOD | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| DYDDIAD | 27 Ebrill 2022 |
| TEITL | YR YSGWRN - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022 |
| ADRODDIAD GAN | Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol |
| PWRPAS | Diweddaru Aelodau ar weithgaredd Yr Ysgwrn |

1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

- 1.1. Ffocws y ddwy flynedd ddiwethaf fu ymateb i sefyllfa'r pandemig Covid 19 a rhwng cyfnodau clo, llwyddwyd i agor Yr Ysgwrn am 10 wythnos yn 2020 ac 16 6 wythnos yn 2021. Cyfyngwyd y capasiti arferol i oddeutu 50% oherwydd rheolau atal lledaeniad Covid 19, megis ymbellhau cymdeithasol a chymhlethwyd hynny ymhellach gan effaith anghyfartal y pandemig ar deithio grŵp ac ymweliadau addysgiadol.
- 1.2. Serch hynny, llwyddwyd i gadw momentwm, cyflawni'r gyllideb ariannol a defnyddio'r cyfnodau o gau i adolygu a blaengynllunio. Bu'n gyfnod heriol ac mae llawer i ymfalchïo ynddo.
- 1.3. Mae'r flwyddyn o'n blaenau yn ansicr, oherwydd effaith parhaus y pandemig. Mae teithio grŵp yn ail-ddechrau'n araf a hyderwn mai gwella fydd y rhagolygon masnachol gydag amser.
- 1.4. Parhaodd Fwrdd Yr Ysgwrn i gyfarfod drwy gyfnod y pandemig. Yr arferiad ydi cyfarfod dwywaith y flwyddyn, ym mis Chwefror a mis Tachwedd. Mae modd cynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl y galw a gwnaethpwyd hynny ym mis Mawrth eleni er mwyn adolygu targedau'r flwyddyn i ddod a'r sefyllfa ariannol.

2. 2021/22

- 2.1. Ym mis Mehefin, bu farw Mr Gerald Williams, ceidwad a chyn-berchennog Yr Ysgwrn a nai Hedd Wyn. Ers blynyddoedd lawer cyn pryniant Yr Ysgwrn, drwy waith fel Rhaglen Tir Eryri, rhanai Gerald a'r Awdurdod berthynas dda a dyna sail ei ddymuniad i werthu'r Ysgwrn i'r Awdurdod. Bu Gerald yn ysbrydoliaeth ac yn gydwybod i'r gwaith cynllunio a datblygu a ddigwyddodd yn Yr Ysgwrn o 2012 ymlaen ac fel swyddogion, bûm yn ffodus o'i arweiniad, ei gyngor a'i gyfeillgarwch. Mae bwlch yn Yr Ysgwrn ar ei ôl ond testament i weledigaeth a pharch Gerald at yr addewid a wnaeth i'w nain, 'i gadw'r drws

- yn agored' oedd y ffaith iddo fynd ati i sicrhau dyfodol ei gartref drwy basio'r awenau i genhedlaeth newydd o geidwaid.
- 2.2. Mae'r Ysgwrn yn cwblhau'r flwyddyn gyda gorwariant o £7,000. Mae'r gorwariant yn bennaf oherwydd incwm is, cost comisiynu Cwricwlwm Yr Ysgwrn a chostau rheoli eiddo oherwydd problemau technegol amrywiol gyda'r larwm a'r boeler biomass.
Mae cynllun peilot Rhagnodi Cymdeithasol wedi'i sefydlu mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Dydd Mercher Lles wedi cynnwys sesiynau o loga, Teithiau Cerdded Tywys, Nofio Llynnoedd a Chlirio Traethau. Bydd y strategaeth Rhagnodi Cymdeithasol ac Iechyd Gwyrdd yn cael ei lansio gan PHW ym mis Hydref 2021, a fydd yn caniatáu i'r holl ddarparwyr perthnasol logio gweithgareddau mewn cofrestr a rennir i feddygon teulu gael mynediad iddi ar draws Gogledd Cymru.



Tramper – symudedd

Eryri

Gan weithio mewn partneriaeth â busnes lleol, cynigir Trampers i'w llogi mewn gwahanol rannau o'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Tramper yn sgwter symudedd addas ar gyfer pob tirwedd wedi'i ddylunio'n arbennig, gellir ei ddefnyddio oddi ar y ffordd a hyd yn oed ar dir garw, mwd a glaswellt. Mae'n gadarn iawn, mae'r dull llywio yn ysgafn ac yn gywir ac mae'r daliant (suspension) wedi'i deilwra, gan ei gwneud hi'n hawdd ei drin ac yn gyffyrddus i reidio arno. Mae'n galluogi pobl sydd â nam symudedd i brofi cefn gwlad; ac i fynd gyda ffrindiau a theulu pan fyddant yn mynd allan i gerdded.



Maes Blaenoriaeth

Dysgu a gwaith

Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, addysg a datblygu sgiliau

Pwyntiau Allweddol

Cefnogi gweithgareddau **Adferiad Gwyrdd** gan gynnwys swyddi mewn:

- Sgiliau Treftadaeth
- Cyfleoedd twristiaeth gynaliadwy,
- Micro-fusnesau ac entrepreneuriaid gwledig
- Cynhwysiant digidol
- Sicrhau bod cyfleoedd trwy Adferiad Gwyrdd yn cael eu targedu i ymgysylltu â grwpiau a chymunedau a lleoedd a grwpiau amrywiol.
- Darparu cyfleoedd i gymunedau a busnesau ddeall rhinweddau arbennig Parciau Cenedlaethol
- Ymgysylltu â rhaglenni gwaith sy'n helpu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i helpu i adfer a gwarchod rhinweddau arbennig Parciau Cenedlaethol.



Esiampiau

Parciau Cenedlaethol Cymru

Gwricwllwm newydd Cymru, trwy gymryd rhan yng Nghyngor Dysgu Awyr Agored Cymru ac yn eu gwaith lleol gydag ysgolion ac addysgwyr. Mae gan ddydysu yn yr awyr agored rôl hanfodol wrth gyfrannu at iechyd a lles disgyblion yng Nghymru

[Outdoor Learning | Wales Council For Outdoor Learning](#)



Princes Trust

Bannau Brycheiniog

Mewn partneriaeth â The Princes Trust Cymru, cyflawnwyd prosiect 3 blynedd ar gyfer pobl ifanc 'NEET' (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Cefnogodd y rhaglen 55 o bobl ifanc i ddatblygu sgiliau gwledig ymarferol ac i gyflawni cymwysterau achrededig ar y tir. Aeth 26 ymlaen ar leoliad gwaith 3 mis gydag Awdurdod y Parc. Ariannwyd gan Arwain (LEADER CDLI) a Chronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB

<https://www.arwain.wales/en.html>



Llysgenhadon Ar-lein

Eryri

Mae rhaglen *Llysgennad Eryri* wedi'i datblygu ar gyfer y diwydiant twristiaeth lleol, ond mae'n cynnig hyfforddiant o ansawdd uchel i unrhyw un sy'n dymuno dysgu mwy am yr hyn sy'n gwneud Eryri yn eithriadol trwy raglen hyfforddi ar-lein. Mae'r rhaglen yn cynnwys 12 modiwl sy'n adlewyrchu rhinweddau arbennig y Parc, sy'n amrywio o waith gwreiddiol i gynnwys ffeithiol, y mae llawer ohono wedi cael ei gyfrannu gan arbenigwyr lleol ledled y rhanbarth.



Caru Eryri

Eryri

Datblygwyd y rhaglen wirfoddolwyr hon mewn Partneriaeth â Chymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Bartneriaeth Awyr Agored i gefnogi gwaith Wardeiniaid APCE. Derbyniodd pob gwirfoddolwr sesiwn ymsefydlu a chael hyfforddiant llawn, asesiadau risg, Offer Diogelu Personol, a phrotocolau diogelwch Covid a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. I'r rhai oedd yn awyddus i gymryd mwy o gyfrifoldeb roedd cwrs Cymorth Cyntaf Awyr Agored proffesiynol am ddim ar gael. Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu i aros yn rhywbeth gaiff ei gynnig yn barhaol gan yr holl Bartneriaid.



Coleg y Mynyddoedd Du

Bannau Brycheiniog

Cefnogodd Cronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB Coleg y Mynyddoedd Du sefydlu darpariaeth addysg bellach yn y Parc Cenedlaethol ac i ddarparu cyrsiau ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd, gan gynnwys sgiliau traddodiadol i'w defnyddio yn y dirwedd. Bydd pobl ifanc, pobl leol ac eraill yn elwa o ddatblygu sgiliau a chyfleoedd gwaith posib.

<https://blackmountainscollege.uk/>



Swyddi Kickstarter

Parciau Cenedlaethol Cymru

O dan gynllun Kickstart Llywodraeth y DU mewn partneriaeth ag Awdurdodau Parc Cenedlaethol eraill y DU, mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn darparu nifer o leoliadau swyddi 6 mis newydd ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed ar Gredyd Cynhwysol sydd mewn perygl o ddiweithdra tymor hir.

Cynigiodd Bannau Brycheiniog 6 lleoliad gan gynnwys cymorth TG, Llysgennad Ieuencid, Cymorth Cyfathrebu, manwerthu a 2 weithiwr ystâd.

Cynigiodd Arfordir Penfro 5 lleoliad gan gynnwys Cymorth Busnes / Gweinyddiaeth, Cynorthwydd Archeoleg, 2 Warden Cynorthwyol / Ymwelwyr Cynorthwyol, a Chynorthwydd Gweinyddol Rheoli Datblygu

Cynigiodd Eryri 3 lleoliad gan gynnwys Cynorthwydd Cyfryngau Digidol, Gweithiwr Ystâd a Chynorthwydd Coedwigaeth.



BRECON BEACONS
NATIONAL PARK



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



SNOWDONIA
NATIONAL PARK

7. Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb

Rhaid i APC ystyried effaith penderfyniad strategol ar:

- Pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (dyletswydd economaidd-gymdeithasol)
- Pobl â nodweddion gwarchoddedig (Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau penodol i Gymru)

Bydd APC yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb / asesiadau integredig ar benderfyniadau perthnasol a chynlluniau strategol i sicrhau bod sylw dyledus yn cael ei roi i gydraddoldeb ac effeithiau economaidd-gymdeithasol yn ystod y prosesau gwneud penderfyniadau.

Bydd Tirweddau i Bawb yn cyfarwyddo rhaglenni gweithio ar y cyd Parciau Cenedlaethol Cymru, a byddant yn allweddol wrth arwain rhaglenni gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol unigol, a bydd eu hadroddiadau i'w gweld mewn Cynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau Rheoli a Chynlluniau Datblygu Lleol.



8. Cyfeiriadau

- i <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/building-better-places-the-planning-system-delivering-resilient-and-brighter-futures.pdf>
- ii <https://www.futuregenerations.wales/about-us/future-generations-act/>
- iii <https://gov.wales/socio-economic-duty-overview>
- iv <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents>
- v <https://phw.nhs.wales/about-us/our-priorities/influencing-the-wider-determinants/>
- vi <https://gov.wales/written-statement-valued-and-resilient-welsh-governments-priorities-areas-outstanding-natural>
- vii <https://www.jrf.org.uk/our-work/what-is-poverty>
- viii [WG42004 A More Equal Wales The Socio-economic Duty Equality Act 2010 \(gov.wales\)](#)
- ix [A More Equal Wales: The Socio-economic Duty | GOV.WALES](#)
- x [WG42004 A More Equal Wales The Socio-economic Duty Equality Act 2010 \(gov.wales\) / State-of-the-Nation-2020.pdf \(chwarateg.com\)](#)
- xi <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/rising-to-the-triple-challenge-of-brexit-Covid-19-and-climate-change-for-health-well-being-and-equity-in-wales/>
- xii <https://gov.wales/written-statement-valued-and-resilient-welsh-governments-priorities-areas-outstanding-natural>
- xiii https://www.forestresearch.gov.uk/documents/8053/Why_Society_Needs_Nature_4FUC2GT.PDF
- xiv [Nature's Role in Supporting Health during the Covid-19 Pandemic: A Geospatial and Socioecological Study - PubMed \(nih.gov\)](#)
- xv <https://www.groundwork.org.uk/wp-content/uploads/2021/05/Out-of-Bounds-equity-in-access-to-urban-nature.pdf>
- xvi [Poverty, health, and Covid-19 | The BMJ https://www.thelancet.com/journals/lanpsy/article/PIIS2215-0366\(20\)30308-4/fulltext\)](#)
- xvii https://www.gla.ac.uk/media/Media_805950_smxx.pdf
- xviii <https://phw.nhs.wales/publications/publications1/rising-to-the-triple-challenge-of-brexit-Covid-19-and-climate-change-for-health-well-being-and-equity-in-wales/>
- xix [NRW, Green Recovery: Priorities for Action Report \(December 2020\), Green Recovery: Priorities for Action Rr \(cyfoethnaturiol.cymru\)](#)

- xx <https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/global/reports/hunger-and-livelihoods/Child-Poverty-Snapshots-English.pdf>
- xxii JRF, Briefing: Poverty in Wales 2020, [poverty_in_wales_2020_0.pdf](#)
- xxiii End Child Poverty Now, Media Release: New Child Poverty Data (October 2020)
- xxiv [www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Wales%20Policy%20and%20Campaigns/MH%20and%20CV19%20in%20Wales%20\(1\).pdf](http://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Wales%20Policy%20and%20Campaigns/MH%20and%20CV19%20in%20Wales%20(1).pdf)
- xxv [House prices in tourist hotspots increasingly out of reach for young and low paid - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#)
- xxvi <https://www.bevanfoundation.org/views/staycation-housing-wales/>
- xxvii See xxviii
- xxviii NRW, SoNaRR2020 SMNR Aim 3 Healthy Places for People, p12: [SoNaRR2020 Aim 3 assessment \(cyfoethnaturiol.cymru\)](#)
- xxix <https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/south-west-wales-area-statement/reducing-health-inequalities/?lang=en>
- xxx NRW, SoNaRR2020 SMNR Aim 3 Healthy Places for People, p12: [SoNaRR2020 Aim 3 assessment \(cyfoethnaturiol.cymru\)](#)
- xxxi <https://gov.wales/analysis-protected-characteristics-area-deprivation-2017-2019>
- xxxii <https://rural-urban.eu/sites/default/files/Rural%20Vision%20Evidence%20Report%20Final%20Eng.pdf>
- xxxiii https://childmind.org/article/why-kids-need-to-spend-time-in-nature/#full_article
- xxxiv <https://nt.global.ssl.fastly.net/documents/read-our-natural-childhood-report.pdf>
- xxxv <https://www.playwales.org.uk/eng/nature>
- xxxvi <https://www.ipcc.ch/report/sixth-assessment-report-working-group-i/>
- xxxvii <https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/climate-change-and-health>
- xxxviii <https://gov.wales/wales-commits-net-zero-2050-sets-out-ambitions-get-there-sooner>
- xxxix <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/the-national-strategy-for-flood-and-coastal-erosion-risk-management-in-wales.pdf>
- xl <https://www2.le.ac.uk/departments/english/creativewriting/centre/colonial-countryside-project>
- xli <https://whc.unesco.org/en/tourism/>
- xlii <http://www.unesco.org/new/en/culture/resources/in-focus-articles/safeguarding-communities-living-heritage/>

xliii <https://gov.wales/welsh-government-announces-three-pronged-approach-address-second-homes-crisis>

xliv [House prices in tourist hotspots increasingly out of reach for young and low paid - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#)

xlv https://www.forestresearch.gov.uk/documents/8053/Why_Society_Needs_Nature_4FUC2GT.PDF

xlvi <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2020/07/At-A-Glance-FG-Report.pdf>



ADRODDIAD Y GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 19 IONAWR 2022

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes (Cadeirydd), Judith Humphreys, Edgar Owen, Elfed Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorwyr Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Helen Pye, Angela Jones, Nia Roberts, Anwen Gaffey;

Ymddiheuriadau

Cyngorwyr Alwyn Gruffydd, Gethin Glyn Williams;
Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151.

1. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes:-
 - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
 - roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.
2. **Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3. **Cofnodion**
Eitem 2 – Datgan Budd
Yn ddarostyngedig y cofnodir fod Rob Lewis, Technegydd Cymorth Systemau Gwybodaeth a Catrin Williams, Cyfieithydd yr Awdurdod yn bresennol yn y cyfarfod mewn rôl gefnogol, derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021 a llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.
4. **Cartrefi modur yn y Parc Cenedlaethol**
Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'r Pennaeth Ymgysylltu i ddarparu cynigion tymor byr a chanolig ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â chartrefi modur yn y Parc Cenedlaethol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu'r adroddiad diweddar a'r cefndir a rhoddodd fanylion pellach am y mesurau a weithredwyd, y tueddiadau yn 2021 a rhagolwg ar gyfer 2022.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Awdurdod ystyried pob cyfle i gydweithio â'i bartneriaid ochr yn ochr â gweithio gyda chymunedau lleol i ganfod canlyniadau cadarnhaol.

- bydd gweithio gydag Awdurdod yr Heddlu, sydd â'r pwerau gorfodi angenrheidiol, yn darparu buddion i'r Gwasanaeth Wardeniaid o ran cefnogaeth a darparu hyfforddiant i'r tîm.
- nododd Aelod bryderon y cyfeiriwyd at faniau gwersylla fel 'problem' a gofynnodd iddynt gael eu gweld fel 'cyfle'. Roedd twristiaeth yn ddiwydiant hanfodol i Ogledd Cymru ac roedd angen dybryd i wneud gwell darpariaeth ar gyfer ymwelwyr, a dylai'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri fynd i'r afael â hyn yn ddiymdroi.
- mynegwyd pryderon bod rhai safleoedd carafanau sefydledig yn darparu 'lleiniau tymhorol' yn unig gan arwain at lai o leiniau i deithwyr sy'n ychwanegu at y broblem. Gofynnodd yr Aelod hefyd a yw'r Awdurdod yn gweithio i addysgu ac ymgysylltu â sefydliadau fel y Clwb Carafanau a chylchgronau carafanau i godi ymwybyddiaeth o'r broblem?
- teimlai Aelod nad oedd hwn bellach yn fater cysylltiedig â chovid ac y byddai'r duedd gynyddol o 'faniau wedi'u haddasu' a faniau gwersylla yn parhau. Croesawodd yr Aelod y cynnig i dreialu gadael taflen ar ffenestr flaen cerbydau, yn amodol y monitir problemau sbwriel posibl, a nodwyd yr angen i gael gwared ar 'apps' sy'n hyrwyddo gwersylla anghyfreithlon. Awgrymodd yr Aelod y gellid caniatáu i faniau gwersylla ddefnyddio meysydd parcio gwastai a thafarndai dros nos, o bosibl yn dymhorol / dros dro, ar yr amod eu bod yn defnyddio eu cyfleusterau ac yn gwario swm penodedig. Gallai meysydd parcio neuadd bentref fod yn opsiwn hefyd.
- mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd swyddogion fod gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â holl dirweddau gwarchoddedig Cymru mewn perthynas â chyfathrebu. Nododd y Pennaeth Ymgysylltu'r angen i gynyddu ymglymiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn y dyfodol a chadarnhaodd fod swyddogion yn anelu at ddatblygu ymagwedd gyson a chroesawgar ar draws y Parc Cenedlaethol. Cytunodd y swyddogion hefyd fod angen gwneud rhagor o waith i sefydlu beth oedd caniatâd cynllunio gwreiddiol safleoedd carafanau a gwersylla yn caniatáu iddynt ei ddarparu, a oedd tor-rheolaeth o'r caniatâd cynllunio, a chpasiti'r safleoedd hyn drwy gydol y tymor.
- cadarnhaodd y Pennaeth Ymgysylltu y bydd swyddogion yn cyfathrebu â grwpiau targed fel rhan o ymgyrch cyfathrebu ymwelwyr 2022 ac fel datblygiad newydd, bydd data a gesglir gan YouGov, mewn ymgyngoriad â'r Awdurdod, yn galluogi swyddogion i asesu demograffeg ei hymwelwyr yn well ar gyfer y tymor i ddod. Cadarnhaodd y Pennaeth Ymgysylltu fod swyddogion yn dal i ddilyn ymagwedd Cymru gyfan gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chartrefi modur, er bod y trefniant hwn wedi dod i stop yn ddiweddar.
- dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai caniatáu aros dros nos mewn neuaddau pentref a meysydd parcio tafarndai yn groes i bolisi. Byddai angen cyflwyno ceisiadau ar gyfer defnydd o'r fath i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad i'w hystyried a byddai pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinwedd ei hun.
- ar nodyn o rybudd, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y bydd yn well gan rai ymwelwyr wersylla gwyllt o hyd. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro eisoes yn darparu cyfleusterau parcio dros nos i faniau gwersylla, ond erys y broblem, gyda phobl yn parhau i barcio dros nos ar y traethau.
- croesawodd Aelod y mecanweithiau atal arfaethedig a amlinellwyd yn yr adroddiad a chytunodd fod gorfodi yn elfen hanfodol. Gall meysydd parcio heb rwystrau ddod yn safleoedd gwersylla answyddogol yn hawdd ac ar brydiau nid oedd symud grwpiau o bobl ymlaen yn opsiwn, yn enwedig os oedd alcohol yn rhan o'r amgylchiadau. Yn codi wedi hynny, cytunodd swyddogion i edrych ar gyllid ychwanegol posibl i gyflogi swyddogion gorfodi tymhorol i'r Awdurdod mewn cydweithrediad â CNC a'r heddlu.
- canmolodd Aelod y gwaith a wnaed gan y Gweithdai Twristiaeth Gynaliadwy sy'n helpu i gynnal trosolwg cytbwys o dwristiaeth a'n cymunedau lleol.

- dywedodd Aelod fod y farchnad faniau gweryslla wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf gyda 50,000 o faniau gweryslla newydd ychwanegol yn cael eu prynu, heb gynnwys cerbydau ail law a cherbydau wedi'u haddasu, a does dim unrhyw dystiolaeth y byddai'r broblem hon yn diflannu. Roedd cyfleoedd i gymunedau elwa a dylai'r Awdurdod fod yn fwy rhagweithiol ac agor y ddeialog, tra'n derbyn y bydd angen lliniaru effeithiau andwyol.
- diolchodd Aelod i'r swyddogion am eu gwaith a nododd er bod angen i'r Awdurdod fod ar flaen y gad, mae angen iddo fod yn ofalus o hyd, ac y dylai gymryd amser i fynd i'r afael â'r mater gan y gallai fod canlyniadau anfwriadol. Croesawyd y cynigion fel y'u nodwyd.
- Trafododd yr aelodau hawliau datblygu a ganiateir, caniatadau dros dro, a defnyddio cyfarwyddiadau Erthygl 4. Cyfeiriwyd swyddogion at wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd sy'n darparu rhan Holi ac Ateb ar yr hyn y gall perchnogion tir ei ddarparu o dan hawliau datblygu a ganiateir yn Lloegr, a all fod yn ddefnyddiol.
- roedd gwaith ar adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y gweill ac roedd dystiolaeth yn cael ei chasglu ar hyn o bryd. Bydd gwersi a ddysgwyd o gynllun peilot Gwynedd Aires hefyd yn cael eu bwydo i mewn.

PENDERFYNWYD

1. nodi'r adroddiad.

2. cefnogi'r cynigion tymor byr a chanolig fel y'u nodir yn adran 2 ac adran 3 o'r adroddiad.

5. Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb: Ein Dull Gweithredu at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant (diwygiwyd ar gyfer 2021)

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Rheolwr Partneriaethau i'r Aelodau nodi 'Tirweddau i Bawb Parciau Cenedlaethol Cymru: Ein Dull Gweithredu tuag at Gynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant' diwygiedig.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaethau'r adroddiad a'r ddogfen Tirweddau i Bawb ddiwygiedig (Atodiad 1) a dywedodd fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro eisoes wedi cymeradwyo'r ddogfen ddiwygiedig a gofynnir i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fynd ati i ystyried yr adroddiad ddiwedd y mis.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- cytunodd Aelod y dylai'r Awdurdod gynyddu ei gyllid craidd i sicrhau llwyddiant hirdymor ei waith iechyd a chynhwysiant cymdeithasol, fel yr amlinellwyd ym mhara. 2.2.2 yr adroddiad.
- Nododd yr Aelodau fod y ddogfen wedi'i hanelu at Aelodau ond ei bod hefyd yn ddefnyddiol i swyddogion.
- mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Partneriaethau fod gan yr Awdurdod swyddog yn ei le i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus a'r ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol, sy'n cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Eryri, ac a fydd yn rhan o holl ddogfennau strategol yr Awdurdod o hyn ymlaen.

PENDERFYNWYD argymhell bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r adroddiad diwygiedig 'Parciau Cenedlaethol Cymru: Tirweddau i Bawb' fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

6. **Cyflwyniad Seiber**

Derbyn cyflwyniad gan y Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu ar Seiberddiogelwch. Cododd y cyflwyniad ymwybyddiaeth Aelodau o'r hyn a ganlyn -

- gwahanol fathau o Malware.
- darparwyd crynodeb o adroddiad gan Archwilio Cymru ar Gydnerthedd Seiber yn y sector gyhoeddus.
- y sefydliadau yng Nghymru sydd wedi bod yn destun ymosodiadau seiber mawr yn ddiweddar, megis Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gwefan Comisiynydd y Gymraeg.
- enghraifft fanwl o ymosodiad seiber a'r pwyntiau dysgu allweddol.
- yr hyn sydd gan yr Awdurdod ar waith i fynd i'r afael â seiberddiogelwch a'r ffordd ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu am y cyflwyniad.

PENDERFYNWYD croesawu'r cyflwyniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.05

ADRODDIAD Y GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWDYD AR 2 MAWRTH 2022

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes (Cadeirydd), Edgar Owen, Elfed Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr.

Swyddogion

Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Edward Jones, Sian Owen, Anwen Gaffey;

Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Philip Capper, Judith Humphreys, Mike Stevens; Ms. Tracey Evans.
Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Adran 151. Mr.

1. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes:-
 - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
 - roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.
2. **Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
3. **Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.
4. **Sefydlu Llinell Sylfaen Carbon yr Awdurdod**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Eiddo i roi diweddariad ar y cynnydd hyd yma.

Adroddwyd – Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd fanylion pellach ar sefydlu gwaelodlin carbon yr Awdurdod. Rhoddwyd canfyddiadau cychwynnol astudiaeth Aquaterra i'r aelodau a chynghorwyd hwy ar y camau gweithredu arfaethedig i wella ansawdd data. Yn ogystal, cododd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo y posibilrwydd y gallai fod angen i awdurdodau megis y Parciau Cenedlaethol, mewn lleoliadau gwledig, fod yn fwy na dim ond carbon niwtral ac anelu at ddod yn garbon-bositif, er mwyn gwrthbwysu methiannau cyrff cyhoeddus mewn ardaloedd mwy trefol.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- dywedodd Aelod y byddai prynu fflyd drydan yn heriol ar hyn o bryd oherwydd problemau cyflenwad a'r broses araf o gyflwyno pwyntiau gwefru.
- teimlai Aelod y dylai allyriadau caffael fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod, ac er y byddai prynu'n lleol yn ddrytach, byddai o fudd i gymunedau lleol. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i wneud y gorau o reoli mawn yn ogystal â phridd organig, ac y dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â chynhyrchu ynni adnewyddadwy megis cynlluniau hydro a dewisiadau biomas. Roedd yn bwysig i'r Awdurdod fod yn gros bositif yn hytrach na net positif, - ac mae angen osgoi hynny.

- mewn ymateb i gwestiwn (tabl 4 o'r adroddiad), yn gofyn pa fanylion oedd wedi'u cynnwys o dan benawdau megis 'Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol', cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod yr holl wasanaethau ymgynghorol ac arbenigol y mae'r Awdurdod yn eu prynu wedi'u cynnwys. Mae'r tabl yn cynnwys gwariant crynswth ar draws llinell gyllideb benodol ar gyfer pob adran, ac er nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwasanaethau corfforaethol a gwariant corfforaethol fel rhan o'u cylch gwaith, mae'r Parciau Cenedlaethol wedi dadlau y dylid eu cynnwys fel rhan o'r rhaglen busnes dydd i ddydd.
- cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo nad oedd teithio i'r gweithle ac oddi yno erioed wedi'i gynnwys a bod y ffigur a ddyfynnwyd ar gyfer teithio busnes yn unig.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedwyd wrth yr Aelodau mai ffigurau refeniw gros oedd y ffigurau yn nhabl 4. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto sut i asesu gwariant cyfalaf ac arhosir am y canllawiau hyn. Hefyd, gallai'r cynnydd yn ôl troed Gwybodaeth a Chyfathrebu fod o ganlyniad i'r cynnydd mewn gweithio o bell a'r angen canlyniadol am dechnoleg ychwanegol a achoswyd gan y pandemig.
- dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau unwaith y bydd canlyniad yr ail gomisiwn, a arweiniwyd gan 'Small world Consulting', yn hysbys. Bydd aelodau yn derbyn copiâu o adroddiadau Aquaterra a Small World Consulting yn llawn, unwaith y byddant ar gael.
- dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo, er bod yr Awdurdod yn anelu at gaffael, trwy ei froceriaid, 100% o'i drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy, fel y mae pob corff cyhoeddus arall yng Nghymru, nid oes unrhyw gwmnïau yn y farchnad bresennol a all ddarparu hyn.
- cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo fod y cynllun hydro ym Mhlas Tan y Bwlch wedi'i gynnwys yn y ffigurau, er mai bychan iawn oedd ei effaith, gan fod y cynllun yn dibynnu ar y tywydd ac yn methu â chynhyrchu trydan drwy gydol y flwyddyn. Dywedodd fod swyddogion yn ystyried opsiynau ar gyfer sefydlu effeithlonrwydd ynni yn Llyn Tegid a Chanolfan Groeso Betws y Coed. Nododd yr aelodau bod y paneli solar ym mhrif adeilad y swyddfa ym Mhenrhyndeudraeth yn darparu trydan i'r adeilad ei hun a bod unrhyw ormodedd yn cael ei storio mewn batris i'w ddefnyddio gan gerbydau fflyd sy'n ailwefru dros nos.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru wedi comisiynu'r ddau adroddiad, a bydd pob un yn talu tua £10k - £12k am y gwaith.
- teimlai Aelod y dylai polisïau cynllunio bob amser ystyried goblygiadau penderfyniadau ar ôl troed carbon yr ardal.
- mewn ymateb i argymhelliad gan Aelod, cytunodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo i godi'r angen i gofnodi'r dyfnder wrth samplu pridd coetir. Byddai'n trafod hyn ymhellach gyda'r Adain Cadwraeth, Coetiroedd ac Amaethyddiaeth sy'n arwain ar y gwaith hwn.
- ar ôl derbyn adroddiad Aquaterra, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo mai'r camau nesaf fydd creu cynllun gweithredu sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian o ran datgarboneiddio i'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad.**
- 2. yn dilyn derbyn yr adroddiad terfynol ar Ôl-troed Carbon yr Awdurdod bydd Strategaeth Garbon a chynllun gweithredu yn cael eu llunio gyda mewnbwn y Grŵp Craffu cyn eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w mabwysiadu.**

Daeth y cyfarfod i ben am 14.05

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI / SNOWDONIA NATIONAL PARK AUTHORITY

Amserlen / Timetable 2022/2023

| CYFARFOD | DYDD | AMSER | 2022 | | | | | | | 2023 | | | | | | | TIME | MEETING | |
|---|-------------|--------------|------------------|------------|------------|-------------|------------|------------|------------|------------|------------|------------|------------|------------|-------------|------------------|-------------|----------------|--|
| | | | MEH | GOR | AWST | MEDI | HYD | TACH | RHAG | ION | CHWE | MAW | EBR | MAI | MEH | DAY | | | |
| AWDURDOD | MER | 10.00 | CCB 15 AGM | | | | 14 | | 16 | | | 8 | | 26 | | CCB 14 AGM | WED | 10.00 | AUTHORITY |
| PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU | MER | 10.00 | | 13 | | | | | 30 | | | | 22 | | | | WED | 10.00 | PERFORMANCE & RESOURCES COMMITTEE |
| PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD | MER | 10.00 | 29 | | | | 7 | 19 | | 7 | 25 | | 8 | 19 | 17 | 28 | WED | 10.00 | PLANNING & ACCESS COMMITTEE |
| PWYLLGOR SAFONAU | GWE | pm | | | | | 2 | | | | | | | | | | FRI | pm | STANDARDS COMMITTEE |
| PANELI YMWELD Y GOGLEDD A'R DE | MER | am | | 6 | | | 21 | 26 | | 14 | | 1 | 15 | | 3 & 24 | | WED | am | NORTHERN AND SOUTHERN INSPECTION PANELS |
| BWRDD PLAS TAN Y BWLCH | MER | am/pm | 15 | | | | 14 | | 16 | | | 8 | | | | 14 | WED | am/pm | PLAS TAN Y BWLCH BOARD |
| BWRDD YR YSGWRN | MER | pm | | | | | | | 9 | | | 15 | | | | | WED | pm | YR YSGWRN BOARD |
| GWEITHGOR AELODAU | MER | am/pm | 29 | | | | 7 | 19 | | 7 | 25 | | 8 | 19 | 17 | 28 | WED | am/pm | MEMBERS' WORKING GROUP |
| CYD WEITHGOR LLEOL | GWE | am | 17 | | | | | | 18 | | | | | | | 30 | FRI | am | LOCAL JOINT WORKING GROUP |
| DIWRNOD DATBLYGU AELODAU | GWE | am/pm | | 8 | | | | | | | | | 24 | | | 23 | FRI | am/pm | MEMBER DEVELOPMENT DAY |
| SEMINAR AELODAU TIRWEDDAU DYNODEDIG CYMRU (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog / Arfordir Penfro) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | DESIGNATED LANDSCAPES WALES MEMBERS' SEMINAR (Brecon Beacons / Pembrokeshire Coast National Park) |
| CYNHADLEDD PARCIAU CENEDLAETHOL Y DG (Parc Cenedlaethol Exmoor) | | | | | | | 27-29 | | | | | | | | | | | | NATIONAL PARKS UK CONFERENCE (Exmoor National Park) |
| EUROPARC Argelès-sur-Mer, Ffrainc | | | | | | | | 4-7 | | | | | | | | | | | EUROPARC Argelès-sur-Mer, France |
| CYFARFOD | DYDD | AMSER | JUNE | JUL | AUG | SEPT | OCT | NOV | DEC | JAN | FEB | MAR | APR | MAY | JUNE | DAY | TIME | MEETING | |

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
MERCHER 24 TACHWEDD 2021**

Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Gwynedd) (Cadeirydd)

YN BRESENNOL :

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Philip Capper, Wyn Ellis Jones, Ifor Glyn Lloyd;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

Swyddogion

Emyr Williams, Mr. G. I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. B. Hughes, Ms Sian Owen, Mrs. Helen Pye, Mrs. Awel Gruffydd, Mrs. A. Gaffey;

Dyweddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, ac:-

- roedd Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn helpu i ddilysu'r cofnodion ond efallai y byddant ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Gethin Glyn Williams;

2. Datgan Budd

Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 14eg Gorffennaf 2021 eu derbyn ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Cofnod / Log Gweithredu

Cyflwynwyd – Log o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth ac i'w gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu, er gwybodaeth.

5. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2021-22

Cyflwynwyd – Adroddiad cynnydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer chwarter cyntaf ac ail chwarter (Ebrill – Medi) y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd fod gosodiad newydd y Rhaglen Waith Gorfforaethol yn dileu'r angen i Aelodau dderbyn dau adroddiad ar wahân. Mae'r adroddiad yn amlinellu Amcanion Llesiant yr Awdurdod, y prosiectau / mentrau cyfatebol a'r camau gweithredu penodol, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno ar wahân ar ddiwedd pob amcan.

Trafododd yr Aelodau a'r Swyddogion yr adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- **Cymunedau Cydnerth**

Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd trigolion

Yn wyneb y cytundeb diweddar rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru i gydweithio, a tharged yr Awdurdod i sicrhau bod cynllunio yn chwarae rhan ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy, bu'r Aelodau'n trafod cynllun peilot diweddar Llywodraeth Cymru yn Nwyfor, sy'n anelu at darparu mwy o reolaeth dros ail gartrefi a thai haf a'r cyfleoedd cydweithio posibl a all godi. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn y dyfodol pan fydd mwy o fanylion ar gael.

Cefnogi Pobl Ifanc

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod swydd y Swyddog Ieuenctid bellach wedi'i hysbysebu.

- croesawodd yr aelodau'r adroddiad a'r cynllun newydd, a oedd yn fwy cryno ac yn haws ei ddeall.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

6. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i drafod Adroddiad Blynyddol drafft y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ac i benderfynu a oedd angen ymateb.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r llythyr atodol oddi wrth y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ac amlinellodd y newidiadau arfaethedig.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd.

7. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i roi diweddariad i'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod ac i ystyried effeithiau COVID-19.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r gofrestr risg. Dywedodd fod risg y Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio) bellach wedi'i ostwng i isel a bod diweddariadau'n cael eu darparu yn y gofrestr.

Trafododd yr Aelodau y materion a ganlyn:-

- Cyfeirnod Risg 2 – Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch)

Roedd y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol o'r farn dylai'r risg aros yr un fath a nododd, er bod y targed incwm wedi'i gyrraedd, bod costau amrywiol eraill wedi dod i'r amlwg.

- Cyfeirnod Risg 9 – Agweddau ar risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect coedwig glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro/punt.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Aelodau'n derbyn adroddiad chwe mis ar wahân ar Brosiectau. Cadarnhaodd fod yr Awdurdod ar hyn o bryd ar y blaen o ran ei dargedau cyflawni ond ar ei hôl hi o ran ei darged gwariant. Roedd hyn o ganlyniad i oramcangyfrif o ran costau, er bod contractwyr lleol bellach yn dod yn brysurach ac yn ddrytach, a bu rhywfaint o lithriad o ganlyniad i bandemig Covid-19 y bydd angen ei ariannu.

- Risg Cyf 14 – Yr Ysgwrn yn methu â chynhyrchu incwm digonol i gwrdd â'r gyllideb

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod y risg wedi'i asesu a chytunwyd y dylai aros heb ei newid gan fod rhywfaint o ansicrwydd o hyd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

8. Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Blynyddol

Cyflwynwyd – Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Personél a'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020/21. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau eraill i fynd i'r afael â throseddau casineb a chodi ymwybyddiaeth ohonynt. Adroddodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd yn yr adroddiad, fod cynrychiolydd o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi rhoi gwybod iddi yn ddiweddar am gynnydd o 21% mewn troseddau casineb eleni. Roedd nifer fawr o'r troseddau casineb yn ymwneud â hil a gofynnwyd i'r Aelodau gadw hyn mewn cof wrth ymdrin â materion a all godi o ganlyniad i'r cynnydd mewn perchnogaeth tai haf ac ail gartrefi, pwysau ymwelwyr ac ymddygiad cysylltiedig ac ati.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer y bydd yr asesiad yn cynnwys effaith economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod, a bydd y ddyletswydd yn cael ei hymgorffori ac adroddir arni.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2020/21 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

9. Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-21: Asesu'r Canlyniad

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i asesu canlyniad Strategaeth yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad, rhoddodd wybod am y cefndir ac amlinellodd y prif bwyntiau.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion yr adroddiad fel a ganlyn:-

- teimlai Aelod fod yr arolwg yn fach o'i gymharu â ffigurau poblogaeth a nifer yr ymwelwyr a gofynnodd i swyddogion gynyddu maint y samplau, er na awgrymwyd y dylai'r Awdurdod achosi costau arolwg post mawr. Dywedodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fod arolwg ar-lein, a oedd yn cael ei hysbysebu ar

gyfryngau cymdeithasol, yn cael ei ystyried fel y dull mwyaf cost-effeithiol gyda'r adnoddau oedd ar gael. Cytunodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i ystyried ffyrdd eraill mwy creadigol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i gasglu ei ddata yn y dyfodol.

- trafododd yr aelodau a swyddogion gyfrifiad 2021, y disgwylir ei ganlyniad ym mis Mawrth 2022, a disgwylir gwybodaeth leol fanylach ym mis Hydref 2022. Bydd y cyfrifiad yn darparu data cywir, yn amlygu meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf a hefyd yn caniatáu i'r Awdurdod weithio'n agos gyda'i bartneriaid.
- o ran casglu data a nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, teimlai Aelod y byddai hyn angen strwythur casglu data lleol y gellid ei ddefnyddio wedyn i asesu effaith strategaeth yr Awdurdod ar y siaradwyr Cymraeg.
- mewn ymateb i gais gan Aelod, cytunodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i drafod ymhellach sut y gall y defnydd o bolisiau 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' uchafu'r buddion a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r Gymraeg.
- bu aelodau a swyddogion yn trafod ymhellach gynllun peilot Llywodraeth Cymru sy'n cael ei lansio ym mis Ionawr sydd â'r nod o fynd i'r afael ag effaith perchnogaeth ail gartrefi ar gymunedau Cymru. Cadarnhaodd Cadeirydd yr Awdurdod fod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u cynnwys mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, a oedd yn ymwybodol o heriau cyfreithiol posibl a'r effeithiau dadleoli dilynol. Roedd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Chadeiryddion y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru a bydd datganiad ar y cyd yn cael ei baratoi i groesawu'r cyhoeddiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod dolen at ddatganiad y Gweinidog ar gael i'r Aelodau ar ffurf "sgwrs".
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y swydd wag 'Swyddog Addysg Uwchradd' wedi'i hymgorffori yn swydd y Swyddog leuenctid sy'n cael ei hysbysebu ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad ac aros am ganlyniad y cyfrifiad, cyn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr Awdurdod am y 5 mlynedd nesaf.**
- 2. cymeradwyo Strategaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2016-2021: Asesu'r Canlyniad, i'w chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

10. Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy i roi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd y Canolfannau yn erbyn y targed ariannol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r flwyddyn 2021/22 hyd yma. Gofynnwyd i'r aelodau nodi y dylai paragraff 2.5 o'r adroddiad Cymraeg nodi bod un o'r swyddi newydd wedi'i chontractio a'i hyfforddi ar gyfer y tair canolfan.

Trafododd yr Aelodau y materion a ganlyn:-

- diolchodd yr aelodau i'r Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy am ei hadroddiad ac am y gwaith a gyflawnir gan y Canolfannau Gwybodaeth, o dan amgylchiadau heriol iawn.
- trafododd yr aelodau bryderon lleol bod yr ardal o amgylch Canolfan Groeso Betws y Coed yn flêr a hefyd yn trafod yr awydd, yn lleol, i ddatblygu hyb cymunedol yn y Ganolfan Groeso a allai hefyd gael ei ddefnyddio gan fusnesau

bach. Cadarnhaodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy fod cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a fyddai'n gwella mynediad i'r Ganolfan ac yn tacluso'r ardal gyfagos. Roedd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yn ymwybodol o'r awydd i greu canolbwynt cymunedol ym Metws y Coed ond nid oedd yn argyhoeddedig mai'r Ganolfan Groeso oedd y lleoliad gorau ar gyfer yr adnodd hwn, er mai penderfyniad yr Awdurdod oedd hwn yn y pen draw.

- nododd Aelod ei bryder nad oedd staff cyflenwol yn ystod salwch ar gael i sicrhau y gallai Canolfan Groeso Aberdyfi aros ar agor. Cadarnhaodd y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy fod system bellach yn ei lle a fyddai'n sicrhau staff cyflenwol ar gyfer absenoldebau staff a fydd, gobeithio, yn datrys y broblem hon yn y dyfodol.
- trafododd yr aelodau a swyddogion y rhesymau dros y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn y Canolfannau ac effaith y pandemig ar weithredwyr coetsis a mordeithiau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r camau gweithredu ar gyfer 202 2/23, fel yr amlinellwyd.

11. Adroddiad Monitro Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2020/21

Cyflwynwyd – Adroddiad gwybodaeth gan y Pennaeth Personél i hysbysu'r Aelodau am Faterion Iechyd a Diogelwch o fewn yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a dywedodd y byddai'n anfon unrhyw gwestiynau na allai o eu hateb at y Pennaeth Personél i gael ymateb.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a chodwyd y materion a ganlyn:-

- roedd Aelod yn pryderu nad oedd data cymhariaeth wedi'i gynnwys ac y dylai'r adroddiad roi mwy o wybodaeth am faterion megis iechyd meddwl staff ac hefyd, damweiniau a fu bron â digwydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod trefn yn ei lle i gofnodi digwyddiadau a fu bron â digwydd, er nad oedd wedi'i gynnwys fel rhan o'r adroddiad. Cadarnhaodd hefyd fod yr holl staff wedi cael eu gwahodd i fynychu cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl a bod y cyfarfod 'holl staff' wedi canolbwyntio ar ddulliau ymdopi ar gyfer gweithio gartref. Roedd yn ymwybodol, serch hynny, mai pwysau llwyth gwaith oedd y broblem fwyaf i staff ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r Pennaeth Personél yn cylchredeg y data i'r Aelodau yn ôl y gofyn.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai gwerthusiadau staff yn nodi'r angen am hyfforddiant pellach a sicrhau bod gan staff rheng flaen y sgiliau angenrheidiol i ymdrin â chwsmeriaid lletchwith a sefyllfaoedd llawn tyndra.
- gan fod pandemig Covid-19 wedi golygu bod angen mwy o staff i weithio gartref, gofynnodd Aelod a oedd hyn wedi effeithio ar les corfforol staff? Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod staff yn cael eu hannog i ddilyn cyfarwyddiadau ar sut i osod eu hoffer ac i ofyn am offer neu ddodrefn pellach i fynd i'r afael â'u hanghenion gweithio gartref yn ôl yr angen. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod rhai staff wedi gofyn am ragor o offer ac y byddai cyflwyno'r drefn o weithio hybrid yn y dyfodol hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau o'r fath.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**
- 2. aros am ragor o wybodaeth gan y Pennaeth Personél, fel yr amlinellwyd.**

12. **Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch**

Cyflwynwyd - Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021, er gwybodaeth. Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol grynodeb o'r sefyllfa bresennol.

Trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol:-

- cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y syrfëwr ar hyn o bryd ym Mhlas Tan y Bwlch yn cynnal arolwg cyflwr llawn. Byddai'r arolwg yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.
- gan fod Plas Tan y Bwlch yn adeilad rhestredig Gradd II*, gofynnodd Aelod i swyddogion ymchwilio i argaeledd cyllid grant ar gyfer y dyfodol.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr y gofynnir i'r Aelodau ystyried dyfodol Plas Tan y Bwlch ar ddiwedd tymor yr Haf 2022. Nododd ei bryderon bod yna ormod o ffocws ar incwm a bod angen gwaith pellach gan y Bwrdd i wireddu'r maint elw yn llawn ac ati.
nododd Aelod fod angen i'r Awdurdod benderfynu sut mae Plas Tan y Bwlch, fel ased, yn ffitio i rôl yr Awdurdod, cyn gwario unrhyw arian sylweddol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r mater yn cael ei drafod yn llawn gan yr Aelodau cyn i unrhyw benderfyniadau ffurfiol gael eu gwneud ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40